**Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029: Asesiad Effaith Integredig (Mawrth 2025)**

## Cyd-destun

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol newydd yn cael ei lunio i ddarparu fframwaith cyflawni integredig i fwrw ymlaen â'r gwaith o gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Bydd y cynllun hwn yn symleiddio gwaith yn y dyfodol, gan ddarparu fframwaith mwy cryno i resymoli a rhoi ffocws ar gyflawni ymrwymiadau cydraddoldeb a hawliau dynol traws-lywodraethol presennol, tra'n cefnogi cyflawni mwy effeithiol.

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 arfaethedig yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni yn erbyn galwadau i integreiddio polisi cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn dwyn ynghyd yr argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol A yw Cymru'n Decach? ac eraill yn yr adroddiad Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ac ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig trwy ddarparu ymrwymiad cyhoeddus i'r dull newydd hwn.

Yr Asesiad Effaith Integredig hwn yw'r trydydd mewn cyfres o Asesiadau Effaith Integredig mewn perthynas â chreu â chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2024- 2028 (Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028) a lywiodd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol cysylltiedig ar gyfer yr un cyfnod.

Yr Asesiad Effaith Integredig cyntaf (Asesiad Effaith Integredig-1) oedd yr ymarfer cyn-ymgynghori a gynhaliwyd ym mis Mai 2023; cynhaliwyd ail Asesiad Effaith Integredig (Asesiad Effaith Integredig-2) ar ôl yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2024. Llywiodd hyn gytundeb y Cabinet i destun yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028 arfaethedig ar y pryd a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol cysylltiedig (sydd bellach yn cynnwys hawliau dynol).

Mae'r trydydd Asesiad Effaith Integredig hwn (Asesiad Effaith Integredig-3) yn canolbwyntio ar y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ei hun; fframwaith cyflawni i wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a darparu dull mwy effeithiol a chyson o gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn hefyd yn adlewyrchu bod y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cyflwyno, am y tro cyntaf, ddatganiad hawliau dynol o ymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol a dull sy'n rhoi pwyslais ar hawliau dynol wrth ddatblygu polisi a rhaglenni. Nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol ond yn hytrach yn dwyn ynghyd nifer o gynlluniau mwy penodol o dan un fframwaith.

Mae'n cyd-fynd â chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 ac yn adlewyrchu ymatebion i'r ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i

2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig, a ddaeth i ben ar 12 Chwefror 2024. Mae'r un ymgynghoriad yn llywio datblygiad yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig: Sicrhau Cymru deg: Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024-28 (18 Mawrth 2024).

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i gyhoeddi ac adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd. Cyhoeddwyd y set bresennol o Amcanion Cydraddoldeb ar 2 Ebrill 2020.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu oherwydd:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Gelwir y categorïau hyn yn 'Nodweddion Gwarchodedig'.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 - 2024, cyhoeddwyd sawl cynllun cydraddoldeb gwahanol sy'n cysylltu â, neu sy'n canolbwyntio ar weithredu i gefnogi grwpiau nodweddion gwarchodedig unigol, pob un â'i set ddiffiniedig ei hun o Gamau Gweithredu. Nid yw rhai o'r cynlluniau a restrir isod yn cael eu hystyried fel cynlluniau cydraddoldeb uniongyrchol fel y cyfryw, ond maent yn gyfryngau pwysig ar gyfer gweithredu sy'n effeithio ar y rhai o fewn cymunedau buddiant sydd hefyd wedi'u crynhoi o fewn grwpiau nodweddion gwarchodedig

- Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu (Mae Tasglu Hawliau Pobl Anabl yn datblygu cynllun olynol)
- Gofal Mamolaeth yng Nghymru – Gweledigaeth pum mlynedd ar gyfer y dyfodol 2019-2024
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2 iteriad)
- Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (Cenedl Noddfa)
- Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru 2020-2023
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026

- Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Gan fod cynlluniau gwahanol ar gyfer sawl ardal nodweddion gwarchodedig yn bodoli, gyda pholisïau gwahanol sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig, mae'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn mabwysiadu dull croestoriadol sy'n uno polisïau cydraddoldeb trwy ganlyniadau a rennir.

Mae'n ofynnol i holl gynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â grwpiau gwarchodedig neu hawliau dynol nodi amcanion a chamau gweithredu. Bydd angen i unrhyw fersiynau diwygiedig o'r cynlluniau hyn neu gynlluniau ychwanegol hefyd ddangos camau gweithredu sy'n cyd-fynd â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 a chyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol (ac unrhyw iteriadau olynol o Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol neu'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn y dyfodol). Y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029. Mae fframweithiau mesur yn cael eu datblygu a fydd yn dangos cynnydd yn erbyn cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028, sydd wrth wraidd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hefyd wedi'i ddatblygu fel fframwaith i gefnogi’r gwaith o ddiwygio ysgogiadau mewnol Llywodraeth Cymru fel rhan o'r newid systemig a diwylliannol ehangach y mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu i'w gefnogi. Bydd y gwaith ar wahân hwn yn ystyried yr effeithiau cysylltiedig wrth i'r diwygiadau hyn ddigwydd, felly eto nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ei hun yn cynnwys camau gweithredu uniongyrchol (mae mwy o fanylion isod).

## Asesiad i gefnogi'r gwaith o greu'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol

Yn unol â 'Ffyrdd o Weithio' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gwnaed y penderfyniad i integreiddio polisi cydraddoldeb a hawliau dynol i gefnogi'n well yr ymdrechion i sicrhau’r effaith fwyaf wrth gyflawni canlyniadau polisi tecach a mwy cyfartal ar draws y meysydd hyn, tra hefyd yn ceisio ystyried a lliniaru yn erbyn effeithiau croestoriadol ehangach anfwriadol neu negyddol.

Mae'r fframwaith newydd hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r ymchwil a gomisiynwyd ym mis Ionawr 2020 i archwilio opsiynau i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Nododd yr adroddiad dilynol, Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru y cysylltiadau cryf rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol ac argymhellodd: *'Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisïau i ddarparu gweledigaeth gryfach i hyrwyddo cydraddoldeb a llesiant. Dylai hawliau dynol gael eu hymgorffori ym mhob proses polisi a chynllunio strategol.’*

Mae adroddiad ymchwil Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn nodi'r 'bwlch cyflawni' parhaus rhwng dyheadau polisi yng Nghymru ar gydraddoldeb a

hawliau dynol, a phrofiad bywyd pobl, gan awgrymu bod angen arweinyddiaeth gryfach gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn creu'r llwyfan ar gyfer yr arweinyddiaeth hon trwy gysylltu ymagweddau at gydraddoldeb a hawliau dynol ar draws y gwaith o ddylunio polisi a chyflawni ymyrraeth.

Mae hefyd yn nodi bod prif ffrydio (ymgorffori) yn allweddol i weithredu cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn canolbwyntio nid yn unig ar ddarparu'r fframwaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni camau gweithredu yn fwy effeithiol ond hefyd yn cynnwys sut y gellir diwygio a chryfhau ysgogiadau'r Llywodraeth i gefnogi prif ffrydio.

Mae llenyddiaeth ymchwil yn sefydlu bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Dynol yn fecanweithiau allweddol i gefnogi datblygiad polisi blaengar ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Fel un o'r diwygiadau allweddol a gefnogir gan y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, rydym yn hyderus y bydd creu model asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol integredig newydd yn arwain at well integreiddio polisi.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i fonitro cynnydd arwain at weithredu. Er mwyn cefnogi hyn, mae angen dangosyddion mesur sy'n sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hwn yn sefydlu fframwaith monitro newydd i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.

**Asesu Tystiolaeth**

Wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, ystyriwyd tystiolaeth groestoriadol hefyd i nodi sut y gall y fframwaith a grëwyd gan y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau.  Mae hyn yn cynnwys lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â gofynion a dyheadau'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Deddf Cydraddoldeb, adran 1-3).

Mae tystiolaeth groestoriadol yn dangos ymhellach effaith ar leihau anghydraddoldebau canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Fel y nodwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ac yn seiliedig ar dystiolaeth a gynhyrchwyd gan Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau, mae effeithiau parhaus chwyddiant uchel blaenorol a'r argyfwng costau byw, gan gynnwys ynni, bwyd a chyfraddau llog uwch, yn parhau i gael mwy o effaith ar y rhai o garfannau aelwydydd incwm isaf y maent hefyd efallai yn fwy tebygol o leihau gwariant ar bethau hanfodol fel bwyd a gwresogi.

Er enghraifft, er bod cyfradd y cynnydd mewn prisiau yn gostwng, mae prisiau bwyd yn dal i effeithio ar bobl ar incwm isel.  Dosbarthodd Ymddiriedolaeth Trussell fwy o barseli bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na'r blynyddoedd blaenorol yng Nghymru. Roedd mwy na hanner y bobl a gafodd eu hatgyfeirio am daliadau ariannol brys i dalu hanfodion yng

nghanol 2022 yn fenywod.  Roedd bron i un o bob pump wedi profi trais domestig yn y 12 mis diwethaf. Mae pobl anabl, oedolion sengl sy'n byw ar eu pennau eu hunain a theuluoedd â phlant fwyaf mewn risg hefyd o ansicrwydd bwyd, gyda mwy o angen defnyddio banciau bwyd.

Mae tystiolaeth hefyd o effeithiau newid yn yr hinsawdd sy'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau difreintiedig. Mae'r rhain yn cynnwys y bobl hynny o aelwydydd incwm isel, sy'n fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd â llygredd aer uchel ac sydd â llai o adnoddau i baratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd ac adfer ohonynt.

Yn ogystal, mae pobl o aelwydydd tlotach, anabl, LHDTC+ neu o gymunedau Du, Asiaidd, ac ethnig leiafrifol ehangach mewn mwy o berygl o iechyd meddwl gwael ac unigrwydd.

Mae marwolaethau mamau a babanod yn parhau i fod yn uwch ymhlith menywod o gefndiroedd cymunedol Du, Asiaidd, ac ethnig leiafrifol ehangach o'i gymharu â chymunedau nad ydynt yn Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol ehangach ar gyfer 2020-22 yn y DU.

Mae canlyniadau PISA a TGAU yn dangos bwlch sylweddol rhwng lefel perfformiad y disgyblion lleiaf difreintiedig a'r disgyblion mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

Mae pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ehangach yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, profi anghydraddoldebau mewn cyflog neu fod mewn gwaith ansicr. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn parhau, gyda menywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cael eu heffeithio'n arbennig.

Mae'r rhai o gefndiroedd tlotach yn ogystal â phobl sy'n anabl, LHDTC+ neu o gefndiroedd ethnig leiafrifol hefyd yn fwy tebygol o wynebu anghydraddoldebau ym maes tai neu fod mewn perygl o ddigartrefedd, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o dai cymdeithasol.

Mae aelwydydd â phlant, person sengl, pobl anabl neu y mae eu prif enillydd incwm yn dod o gymuned ethnig leiafrifol yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan dlodi. Mae tlodi yn gysylltiedig â risg uwch o drais domestig, iechyd cyffredinol sy’n waeth a llai o allu i gymryd rhan mewn ymddygiadau iach o fyw. Mae cyfraddau amddifadedd materol wedi cynyddu yn gyffredinol ymhlith oedolion o oedran gweithio, gyda phlant a'r rhai mewn tai cymdeithasol yn wynebu’r risg fwyaf. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai plant yw'r grŵp poblogaeth mwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, ac mae'r cyfraddau yn parhau i fod yn uchel.

Er bod yr uchod yn cynrychioli dim ond rhywfaint o'r dystiolaeth a ystyriwyd, mae'r dystiolaeth yn dangos anghydraddoldebau a'r graddau y mae hawliau dynol yn gysylltiedig â hynny. Mae darparu dull integredig trwy'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn darparu sylfaen gadarn i ymateb i'r effeithiau croestoriadol hyn ac osgoi risgiau effeithiau anfwriadol pe bai'r meysydd hyn yn cael eu hystyried ar wahân.

Gwnaed y penderfyniad i gysylltu hawliau dynol â chydraddoldeb o fewn un cynllun i gydnabod y gorgyffwrdd sylweddol rhwng y ddau faes. Er enghraifft, mae plant yn unigolion sy'n cael eu gwarchod o dan nodwedd warchodedig oedran yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ond mae ganddynt hefyd set benodol o hawliau a roddir iddynt o dan CCUHP. Wrth ystyried datblygiad ein Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, rydym wedi ymgynghori ag ystod o randdeiliaid sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellir uchod.

Fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Gellir gweld a lawrlwytho'r rhain o'n gwefan, gyda fersiynau hygyrch ar gael ar gais. Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol Llywodraeth Cymru.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023 – 2024 yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl 31 Mawrth 2025. Bydd yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ar yr amcanion a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 yn unig, gan na fydd fframwaith mesur Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn barod i adlewyrchu'r cyfnod hwn. Bydd Adroddiadau Blynyddol dilynol yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfatebolrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol yn unol â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Yn unol â 'ffyrdd o weithio' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gwnaed y penderfyniad i integreiddio polisi cydraddoldeb a hawliau dynol oherwydd bydd gwneud hynny yn galluogi cyflawni canlyniadau polisi tecach a mwy cyfartal yn well ar draws y meysydd hyn.  Bydd hefyd yn ein helpu i liniaru yn erbyn effeithiau anfwriadol neu negyddol.

Mae'r fframwaith newydd hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r ymchwil a gomisiynwyd ym mis Ionawr 2020 i archwilio opsiynau i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae'r ymchwil yn dyfynnu Penderfyniad y Cenhedloedd Unedig, 'Trawsnewid ein byd: Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' sy'n disgrifio perthynas rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yn seiliedig ar nodau datblygu cynaliadwy 2030. Mae mwy na 90 y cant o'r nodau datblygu cynaliadwy wedi'u hymgorffori mewn cytundebau hawliau dynol. Mae methiant i ymgorffori hawliau dynol yn y gwaith o lunio polisïau yn golygu na ellir cyflawni'r nodau.

Mae peidio â gwahaniaethu yn un o egwyddorion hawliau dynol rhyngwladol.  Mae Erthygl 14 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r holl hawliau a phob rhyddid a nodir yn y Ddeddf Hawliau Dynol gael eu diogelu a'u cymhwyso heb wahaniaethu. Mae wedi'i hen sefydlu (o'r llenyddiaeth) bod anghydraddoldeb yn achos ac yn ganlyniad i fethiannau o ran amddiffyn hawliau dynol. Mae cytundebau hawliau dynol

yn cydnabod yn benodol wahaniaethu ac anfantais a brofir gan wahanol grwpiau cymdeithasol, er enghraifft menywod, pobl anabl, a grwpiau sy'n destun gwahaniaethu ar sail hil. Fodd bynnag, mae ymchwil ar y fframwaith deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru yn dangos bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu trin fel agweddau ar wahân ar bolisi cyhoeddus. Nid yw'r rhyngberthynas rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol, neu rhwng y meysydd polisi hyn a llesiant, yn cael llawer o sylw.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn awgrymu mai dim ond 'aliniad cyfyngedig' a gynigir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (a'i chanllawiau cysylltiedig) rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol, a llesiant yng Nghymru. Mae ymchwil yn awgrymu bod mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol at ddatblygu polisi yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r heriau hyn oherwydd y berthynas gydnabyddedig rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol, a rhwng hawliau dynol, datblygu cynaliadwy a llesiant.

Mae'r ymchwil yn awgrymu *“Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisïau i ddarparu gweledigaeth gryfach i hyrwyddo cydraddoldeb a llesiant. Dylai hawliau dynol gael eu hymgorffori ym mhob proses polisi a chynllunio strategol.”*

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hwn yn ymateb yn benodol i'r argymhelliad hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy integreiddio datganiad hawliau dynol o ymrwymiad â chydraddoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yn well.

Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu sylw at 'fwlch cyflawni' parhaus rhwng dyheadau polisi yng Nghymru ar gydraddoldeb a hawliau dynol, a phrofiad bywyd pobl. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen arweinyddiaeth gryfach gan Lywodraeth Cymru. Trwy gysylltu ymagweddau at gydraddoldeb a hawliau dynol ar draws y gwaith o ddylunio polisi a chyflawni ymyrraeth, mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn creu'r llwyfan ar gyfer yr arweinyddiaeth hon. Gan gydnabod annibyniaeth sefydliadau sector cyhoeddus eraill, sy'n rhydd i gyflawni eu hymrwymiadau eu hunain o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Fodd bynnag, bwriad creu'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yw dangos arweinyddiaeth wrth gyfuno dulliau cydraddoldeb a hawliau dynol tuag at ymyriadau y gellid eu hailadrodd ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, gan ddod â budd i bawb.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys saith nod llesiant i wneud Cymru'n wlad lewyrchus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal a chyfrifol ar lefel fyd-eang gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Bydd creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu potensial llawn ac yn gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn iachach, yn fwy llewyrchus ac arloesol, i gael cymunedau mwy cydlynus a chyfrannu at ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg.

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn torri ar draws yr holl nodau llesiant:

- **Cymru lewyrchus** – drwy gryfhau'r ddealltwriaeth o'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'i gweithrediad o fewn llywodraeth Cymru.
- **Cymru iachach** – drwy gydnabod bod anghydraddoldeb canlyniadau mewn perthynas ag iechyd yn aml yn gysylltiedig â grwpiau nodweddion gwarchodedig, hefyd drwy gryfhau dealltwriaeth pobl o'u hawliau i ofal iechyd.
- **Cymru fwy cyfartal** - drwy brif ffrydio cydraddoldeb ar draws gwaith llywodraeth Cymru, yn enwedig deall natur groestoriadol anghydraddoldeb.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - cryfhau gweithrediad y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a phan fo dyletswyddau penodol o reidrwydd yn golygu cryfhau a meithrin perthnasoedd da rhwng cymunedau.

Mae'r pum ffordd hyn o weithio wedi arwain datblygiad yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol sy'n cael eu hategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; byddant hefyd yn cefnogi'r Ddeddf. Mae hyn hefyd yn cael ei ystyried yn y fframwaith mesur sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029.

### Hirdymor

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn darparu fframwaith i gydbwyso ystyriaeth tymor byr a hirdymor, gan gysylltu ymyriadau strategol a chynlluniau cysylltiedig â pholisi cydraddoldeb a hawliau dynol dros amser. Bydd gwella'r gwaith o gydlynu cyflawni ar draws cynlluniau nodweddion gwarchodedig priodol, gan gynnwys drwy well monitro, yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn well fel canlyniadau tymor hwy i Gymru. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer diwygio ysgogiadau llywodraeth fewnol yn systemig a bwriad hynny, dros amser, yw arwain at wneud penderfyniadau gwell a gwell canlyniadau.

### Atal

O fewn y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029, bydd pob Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol yn sbarduno camau ataliol ar draws ystod o feysydd polisi a themâu. Bydd camau gweithredu o fewn y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cael eu symud ymlaen trwy'r cynlluniau nodweddion gwarchodedig unigol a byddant yn ymgorffori pob maes polisi cydraddoldeb a hawliau dynol i bobl Cymru. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn llywio'r gwaith o ddatblygu camau gweithredu a chynlluniau yn y dyfodol. Bwriad y gwaith i ddiwygio ysgogiadau'r llywodraeth megis mewn perthynas ag asesiadau effaith a gwmpesir gan y cynllun hwn hefyd yw arwain at ystyried atal yn well trwy ddiwygio'r ysgogiadau hyn.

### Integreiddio

Dylai integreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol mewn un cynllun ganiatáu ar gyfer sicrhau'r effeithiau mwyaf gan hefyd ystyried a lliniaru effeithiau croestoriadol ehangach anfwriadol neu negyddol. Datblygwyd Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a'r ymagwedd a gymerwyd i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025–2029 mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig a chymunedau buddiant. Roedd gweithio yn y modd hwn yn caniatáu inni ystyried yr heriau croestoriadol wrth ddylunio Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a fydd yn effeithio'n eang ar draws materion cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gryf i fabwysiadu ymagwedd debyg, gan alinio eu Hamcanion Cydraddoldeb â'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Cydweithredu a Chyfranogiad**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cael ei ategu gan yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, a ddatblygwyd yn seiliedig ar ymchwil gan ystod o sefydliadau ac arbenigwyr gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid ar draws cymunedau buddiant nodweddion gwarchodedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig a chymunedau buddiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Cyn lansio'r ymgynghoriad, roedd tystiolaeth ac adborth a gasglwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol A yw Cymru'n Decach? (2018) wedi'i ddadansoddi gan arweinwyr polisi. Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda rhanddeiliaid cydraddoldeb ar draws holl gymunedau buddiant nodweddion gwarchodedig ym mis Gorffennaf 2023 ar y Ddogfen Drafod Gychwynnol trwy adborth electronig i gwestiynau a gweithdy ar-lein. Llywiodd hyn yr ymgynghoriad llawn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig a agorodd ar 13 Tachwedd 2023 ac a gaeodd ar 12 Chwefror 2024.

Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach? ar ôl lansio'r ymgynghoriad, ond mae'r adroddiad hwnnw hefyd wedi llywio datblygiad dilynol y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar-lein ar gyfer sylwadau gan y cyhoedd a chan randdeiliaid ar draws yr holl gymunedau buddiant nodweddion gwarchodedig. Cynhaliwyd digwyddiad ar-lein hefyd i gasglu adborth ychwanegol. Roedd fersiynau hygyrch o'r ymgynghoriad yn cynnwys fersiynau Iaith Arwyddion Prydain, Hawdd ei Ddeall a Chyfeillgar i ieuenctid er mwyn cynyddu cyfleoedd i gyfrannu barn ac adborth.

Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r fframwaith posibl o ran datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol

llawn. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cymeradwywyd Nod Cydraddoldeb Hirdymor trosfwaol ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol gan Gabinet Llywodraeth Cymru a'u cyhoeddi ar 18 Mawrth 2024. Bydd adroddiad ymateb cryno yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

Y bwriad yw ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ar y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol a phan fydd angen newidiadau.

**Effaith**

Mae'r Nod Cydraddoldeb Hirdymor ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a gynhwysir yng Nghynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb blaenoriaethol i sicrhau effaith lle mae ei hangen fwyaf. Mae gwaith wedi'i wneud gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig a chymunedau buddiant yn ystod yr ymgynghoriad ar Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025–2029. Bydd yr ymgysylltu a'r gwaith cydweithredol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn parhau fel y byddant yn cael effaith ar gydraddoldebau a hawliau dynol ar draws polisïau'r llywodraeth i leihau gwahaniaethu a gwella tegwch canlyniadau.

Fel fframwaith unedig ar gyfer sut y bydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gyflawni yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, prif effaith y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol fydd helpu i wireddu'r nodau hyn. Bydd yn rhesymoli camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar draws gwahanol gynlluniau nodweddion gwarchodedig, gan leihau dyblygu a helpu i nodi meysydd cyffredin lle gellir cyfuno adnoddau i sicrhau'r effeithiau buddiol gorau. Bydd y cynllun hefyd yn cefnogi newid systemig a diwylliannol ehangach ar draws Llywodraeth Cymru.

Bydd sefydlu fframwaith monitro i fesur cynnydd tuag at yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol hefyd yn helpu i werthuso polisïau a chydnabod lle mae llwyddiannau neu feysydd i'w gwella. Trwy offer diweddaru gan gynnwys y prosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, bydd y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cael effaith ar ddatblygu a chyflawni polisi yn ehangach.

Cynlluniwyd ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i helpu i asesu effaith y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

**Costau ac Arbedion**

Mae camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn gorwedd o fewn meysydd polisi gwahanol. Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i Gynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 (ac eithrio

costau cyhoeddi ar gyfer fersiynau fformat hygyrch) a chostau adnoddau o ran adnoddau staff sy'n gysylltiedig â monitro a diwygio ysgogiadau. Wrth i strategaethau a chynlluniau ehangach gael eu datblygu, byddant yn ystyried Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029, gyda dadansoddiadau costau ac arbedion sy'n gysylltiedig ag ystyriaeth Gwerth am Arian yn cael eu rhoi gerbron Gweinidogion Cymru i'w hystyried a'u cymeradwyo yn gysylltiedig â phob cynllun gwahanol. Bydd cynnydd o ran cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn cael ei adrodd dros ei gylch bywyd a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru drwy adroddiadau cydraddoldeb blynyddol Llywodraeth Cymru.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn darparu Gwerth am Arian trwy gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar draws y cynlluniau gweithredu priodol a diwygiadau ehangach i ysgogiadau tra hefyd yn nodi effeithiau anfwriadol a negyddol a lliniaru yn eu herbyn. Bydd yn alinio cynlluniau, gan ddarparu cyfleoedd i dargedu adnoddau ac ymdrech. Er enghraifft, lle ar hyn o bryd bydd rhai grwpiau yn profi effeithiau croestoriadol anghymesur sy'n arwain at ymyriadau mwy costus (yn ogystal â chanlyniadau gwaeth), bwriedir i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol fel fframwaith helpu i nodi ystyriaethau croestoriadol a chefnogi camau ataliol.

Mae'r dull hwn yn symleiddio camau gweithredu a'i fwriad yw lleihau dyblygu ymdrech lle mae gan ymyriadau y potensial i effeithio ar y rhai sydd ag anghenion croestoriadol.

Bydd cyflwyno un fframwaith monitro ar draws y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn galluogi gweithio craffach a'r gallu i ystyried cynnydd yn gyfannol ar draws y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r cynlluniau hynny sy'n cyfrannu at eu cyflawni. Mae'n gyson â dull Deddf Cydraddoldeb, 2010 a ddaeth â myrdd o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth cydraddoldeb at ei gilydd mewn un lle, er mwyn symleiddio a'i gwneud yn haws i gyrff cyhoeddus ddeall cydymffurfiaeth. Mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o brif ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn well ochr yn ochr â chyfrifoldebau eraill y llywodraeth megis mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd trwy ddiwygio ysgogiadau fel cydraddoldeb ac asesu effaith ar hawliau dynol wedi'u halinio â newidiadau asesu effaith ehangach. Bydd hyn yn lleihau'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â dangos a sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws Llywodraeth Cymru.

**Mecanwaith**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddigon o bwerau o dan y ddeddfwriaeth bresennol i gyflawni ei swyddogaethau presennol yn y maes hwn.

**2.1 Pobl a Chymunedau**

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Mae'n cwmpasu naw nodwedd warchodedig: Oedran, Anabledd, Ailbennu rhywedd, Priodas a phartneriaeth sifil, Meichiogrwydd a mamolaeth, Hil, Crefydd neu gred, Rhyw a Chyfeiriadedd rhywiol. Mae Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn canolbwyntio ar sicrhau bod hawliau pobl yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu cynnal ac mae'r amcanion trawsbynciol yn anelu at sicrhau bod polisi yn cael effaith gadarnhaol ar bawb, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Credir y bydd y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn ysgogi effaith sylweddol o ran hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Bydd y fframwaith yn rhoi cyfle i dargedu adnoddau ac ymdrech lle mae eu hangen fwyaf ar draws set eang o Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol sydd â pherthnasedd croestoriadol ar draws llawer o nodweddion gwarchodedig a hawliau dynol.

Bydd gweithredu fframwaith monitro yn darparu'r gallu i ddeall effaith gweithredoedd Llywodraeth Cymru. Trwy gryfhau ysgogiadau a systemau mewnol fel asesu effaith a threfniadau llywodraethu, mae gan y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol y potensial i integreiddio'r ystyriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol fel rhan o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau, a chyflawni; creu ymyriadau polisi sydd â'r potensial i gyflawni canlyniadau tecach, mwy cyfartal i bobl Cymru.

### 2.2 Hawliau Plant

#### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Drwy integreiddio gwaith Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb â hawliau dynol, fel yr argymhellir yn yr adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, bydd hyn yn sicrhau bod ystyriaeth o hawliau plant a phobl ifanc yn cael ei ymgorffori ymhellach wrth gyflawni polisi Llywodraeth Cymru (fel y nodir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011) drwy ddull croestoriadol ar draws nodweddion gwarchodedig a chymunedau buddiant. Bydd mabwysiadu ymagwedd sy’n rhoi pwyslais ar hawliau dynol yn cryfhau ac yn ymgorffori ymagwedd sy’n pwysleisio hawliau plant o fewn Llywodraeth Cymru ymhellach gan adeiladu ar y llwyfan a grëwyd gan Hawliau Plant. Bydd gwaith sy'n cael ei gynnal ar ailddatblygu'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb fewnol i gynnwys hawliau dynol, gan gynnwys Hawliau Plant yn benodol, yn ategu'r prosesau Asesu Effaith ar Hawliau Plant presennol.

Gan fod oedran yn un o'r Nodweddion Gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae integreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol o fewn y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn ymateb i orgyffwrdd naturiol â CCUHP. Mae'n hanfodol bod ein Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn cefnogi pobl o bob oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae'r fframwaith newydd hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r ymchwil a gomisiynwyd ym mis Ionawr 2020 i archwilio opsiynau i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad ymchwil Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, dan arweiniad yr Athro Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor, Diverse Cymru ac Young Wales yn dod i'r casgliad bod cysylltiadau cryf rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae peidio â gwahaniaethu yn un o egwyddorion hawliau dynol rhyngwladol ac mae’n sail i Erthygl 14 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 sy’n ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r holl hawliau a phob rhyddid a nodir yn y Ddeddf Hawliau Dynol gael eu diogelu a'u cymhwyso heb wahaniaethu. Mae wedi’i hen sefydlu bod anghydraddoldeb yn achos ac yn ganlyniad i fethiannau o ran amddiffyn hawliau dynol. Mae cytundebau hawliau dynol yn cydnabod yn benodol wahaniaethu ac anfantais a brofir gan wahanol grwpiau cymdeithasol, er enghraifft menywod, pobl anabl, a grwpiau sy'n destun gwahaniaethu ar sail hil. Fodd bynnag, mae ymchwil ar y fframwaith deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru yn dangos bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu trin fel agweddau ar wahân ar bolisi cyhoeddus. Ychydig o sylw a roddir i’r rhyngberthynas rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol, neu rhwng y meysydd polisi hyn a llesiant.

Fel un o brif argymhellion yr ymchwil hon, mae’n argymell *“Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisïau i ddarparu gweledigaeth gryfach i hyrwyddo cydraddoldeb a llesiant. Dylai hawliau dynol gael eu hymgorffori ym mhob proses polisi a chynllunio strategol.”*

Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn atgyfnerthu ac adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r CCUHP fel sail ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc, a sicrhau bod eu hawliau yn parhau i fod yn ganolog i’r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Yn ystod cyfnod ymgynghorol datblygu’r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Bwriad y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hefyd yw galluogi gwell cydweithredu a chyfranogiad wrth fwrw ymlaen â'r cynllun hwn. Mae hyn yn cynnwys ystyried ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a grwpiau rhanddeiliaid ynghylch lansio'r cynllun. Bwriedir hefyd ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid ar y gwaith o ddiwygio ysgogiadau’r llywodraeth fel ysgogiad effeithiol y gallant ddylanwadu orau arno i arwain at ddiwygiadau tymor hwy ystyrlon.

### Y Rhaglen Lywodraethu

Mae cydraddoldeb, fel thema drawsbynciol yn cysylltu â'r Rhaglen Lywodraethu gyda'r ymrwymiadau canlynol wedi'u nodi fel a ganlyn:

### *Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math*

O fewn y Rhaglen Lywodraethu, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i:

- Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (a elwir bellach yn Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol).
- Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu.
- Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog.
- Treialu dull o ymdrin â'r Incwm Sylfaenol.
- Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd.
- Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl.
- Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau.
- Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw.
- Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref.

### *Cyfiawnder Cymdeithasol*

- Ehangu'r gwaith pwyslais ar incwm a'r Gronfa Gynghori Sengl
- Archwilio'r seilwaith angenrheidiol sydd ei angen i baratoi ar gyfer datganoli'r gwaith o weinyddu lles.
- Bwrw ymlaen ag argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg.
- Ehangu'r ymgyrchoedd hyfforddi ac ymwybyddiaeth 'Gofyn a Gweithredu' a 'Paid Cadw'n Dawel'.
- Sefydlu gwasanaeth cyfreithiol cydraddoldeb i ddarparu cymorth ar arferion cyflogaeth annheg neu wahaniaethol.
- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru.
- Mynd i'r afael yn llawn â'r argymhellion o'r Archwiliad Henebion ac Enwau Strydoedd.
- Creu Uned Anghydraddoldeb Hiliol ochr yn ochr ag Uned Data Cydraddoldeb i sicrhau sylfaen dystiolaeth gynhwysol i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y llywodraeth.
- Sicrhau bod elfennau cyfiawnder y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn gadarn a mynd i'r afael â'r materion hyn gyda'r heddlu a'r llysoedd.
- Ehangu ein rhaglen Mynediad i Swyddi Etholedig.

- Gweithredu argymhellion Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023).
- Cefnogi Balchder/Pride ledled Cymru drwy noddi Pride Cymru, sefydlu Cronfa Balchder Cymru gyfan a phenodi Cydlynydd Balchder Cymru.
- Defnyddio’r holl bwerau sydd ar gael i wahardd pob agwedd ar therapi trosi LHDTC+ sydd o fewn ein pŵer a cheisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol.
- Sbarduno cais i ddatganoli'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd a chefnogi ein cymuned Draws.
- Gweithio gyda'r cwmnïau technoleg a llwyfannau cyfryngau i fynd i'r afael â throseddau casineb a chamwybodaeth.
- Ymgorffori urddas mislif mewn ysgolion

Mae rhai camau gweithredu sy'n cefnogi'r ymrwymiadau uchod yn cael eu symud ymlaen trwy'r cynlluniau a strategaethau unigol. Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn gysylltiedig â'r cynlluniau hyn ac yn sail iddynt trwy ddarparu'r fframwaith trosfwaol.

## 2.3 Cydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r egwyddorion a'r cyfarwyddyd a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 dilynol (Rheoliadau 2011). Gan fod y mater hwn yn ymwneud â darparu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 a’i ddatblygiad parhau fel ysgogiad sylweddol i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswyddau, paratowyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B).

## 2.4 Prawfesur Gwledig

Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 a’r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn effeithio ar bob cymuned yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau gwledig. Gall pobl mewn cymunedau gwledig brofi anghydraddoldebau a rhwystrau gwahanol i'r rhai mewn cymunedau trefol.

Cymerodd rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd o gymunedau gwledig ran yn y broses ymgysylltu ac ymgynghori a arweiniodd at y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Gall fod effeithiau buddiol sylweddol neu gymedrol i'r unigolion hynny sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, trwy ystyried hawliau dynol a mabwysiadu dull croestoriadol fel y cynigir yn y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, gellir ystyried effaith y tu hwnt i grwpiau nodweddion gwarchodedig ac ar eu traws. Gallai effeithiau o'r fath gynnwys, er enghraifft, gwasanaethau gwell a mwy hygyrch, gan ddarparu'r cyfle i gymryd rhan mewn

gweithgareddau cymunedol, a/neu gwell cysylltiadau trafnidiaeth. Gall hyn ond cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.

Pan fo polisi ac ymyriadau’n cael eu datblygu, bydd angen iddynt ystyried y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, a bydd angen i lunwyr polisi gyflwyno Asesiad Prawfesur Gwledig i Weinidogion Cymru fel rhan o'u proses o benderfynu ar gyfeiriad polisi yn y dyfodol.

**Adborth i'r ymgynghoriad:** Tynnwyd sylw at heriau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig yn yr ymgynghoriad.

Gan y bydd angen i ymyriadau ar draws ardaloedd gwledig, yn y dyfodol, ddangos eu bod yn cyd-fynd â’r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig llawn.

### 2.5 Iechyd

Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn cael effaith mewn perthynas ag iechyd. Trwy gymryd ymagwedd groestoriadol at gydraddoldeb a hawliau dynol wrth gyflawni yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028, bydd anghydraddoldebau fel Iechyd ac iechyd meddwl yn cael eu hystyried yn well fel yr amlinellir ar dudalen 8 yn yr adran tystiolaeth asesu. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn alinio eu cynlluniau a'u hamcanion cydraddoldeb eu hunain â'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, ac mae gan y dull hwn y potensial i gael effaith wedi'i dargedu a mwy o effaith. Yn ogystal, bydd y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn hyrwyddo gwell defnydd o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar draws Llywodraeth Cymru.  Bydd hyn yn sicrhau, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol, y rhoddir 'ystyriaeth ddyledus' i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd.

Gall fod effeithiau buddiol sylweddol neu gymedrol hefyd yn dod o gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, er enghraifft gwell mynediad at wasanaethau iechyd gan gymunedau y mae ymchwil yn dangos eu bod yn profi rhwystrau mynediad ar hyn o bryd, a gwasanaethau ataliol/cymorth mwy hygyrch, fel yr amlygwyd yn Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3: "Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.”

Bydd penderfyniadau polisi unigol a fydd yn cael eu symud ymlaen sy’n cael effaith ar iechyd ac sy'n cefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru fel rhan o broses berthnasol o wneud penderfyniadau. Dylai partneriaid sector cyhoeddus allanol ddatblygu eu Hamcanion Cydraddoldeb eu hunain a chynlluniau cydraddoldeb a hawliau dynol ategol yn unol ag anghenion eu rhanddeiliaid a’u defnyddwyr eu hunain.

Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith ar Iechyd ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 na Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

### 2.6 Preifatrwydd

Pan fo Llywodraeth Cymru, ei phartneriaid a'i rhanddeiliaid, yn gweithio i fwrw ymlaen â chyflawni Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028, bydd ar bob ymgysylltiad angen asesiad o anghenion preifatrwydd unigolion a deddfwriaeth berthnasol sydd wedi'i chynllunio i ddiogelu preifatrwydd fel gofyniad safonol.

Yn ogystal, pan fydd llunwyr polisi Llywodraeth Cymru yn datblygu camau gweithredu sy'n cefnogi neu'n effeithio ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, bydd yn ofynnol iddynt asesu Effeithiau Preifatrwydd y camau gweithredu hynny.

O fewn yr ymgynghoriad a'r ymgysylltu fel rhan o ddatblygiad Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028, rhoddwyd yr opsiwn i ymatebwyr aros yn ddienw ac wrth gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â'r ymarfer hwn, gwneir yn siŵr mai dim ond enwau a ganiateir sy'n cael eu rhannu.

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

### 3.1 Llesiant diwylliannol

#### 3.1a Sut gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (ar gyfer y Gymraeg gweler adran 3.2)

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn annog ac yn galluogi unigolion â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gan brif ffrydio a gwreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol wrth lunio polisïau a sicrhau bod pobl o bob cymuned yng Nghymru yn rhan o'r mecanweithiau gweithredu polisi.

Bydd camau gweithredu a nodir mewn cynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol yn ysgogwyr newid ar lefelau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae Camau Gweithredu i sicrhau trafnidiaeth haws a lleoliadau hygyrch, ynghyd â gwell mynediad i leoliadau twristiaeth a safleoedd treftadaeth a gwasanaethau cysylltiedig, wedi'u cynnwys mewn cynlluniau i gefnogi Pobl Anabl. Bydd y camau gweithredu hyn yn hyrwyddo mwy o ymgysylltiad â bywyd diwylliannol Cymru ac yn ychwanegu ato drwy gynyddu amrywiaeth defnyddwyr ac yn cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

#### 3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau,

**chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, trwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig uniongyrchol o ganlyniad i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol y gallu i sbarduno effaith gadarnhaol; bydd risg ac effeithiau cyfranogiad isel yn cael eu hystyried yn fwy cyfannol ar draws cynlluniau cydraddoldeb gyda chamau gweithredu a chynnydd yn cael eu monitro trwy un fframwaith monitro. Bydd ymagwedd newydd at gydraddoldeb a phrosesau asesu effaith ar hawliau dynol yn cryfhau'r ystyriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â gwell defnydd o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

### 3.2 Y Gymraeg

Nid yw iaith yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; mae amddiffyn y Gymraeg yn digwydd o dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau cysylltiedig). Fodd bynnag, mae agendâu cydraddoldeb, hawliau dynol a’r Gymraeg yn ategu ac yn hysbysu ei gilydd.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig uniongyrchol ar y Gymraeg o ganlyniad i’r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol Bydd unrhyw gamau gweithredu i'w symud ymlaen yn aros o fewn cwmpas cynlluniau nodweddion gwarchodedig penodol. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau y mae mynediad iddynt yn cael eu darparu yn y Gymraeg lle mae hyn yn briodol.

Bydd y camau gweithredu hyn yn ennyn ymgysylltiad â bywyd diwylliannol Cymru ac yn ychwanegu ato drwy o leiaf gynnal neu gynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg. Bydd hyn yn cyfrannu at un o dargedau craidd Strategaeth y Gymraeg: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* i ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol.

### 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai’n gadarnhaol neu’n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a’r cyhoedd?**

Ni ddisgwylir i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol effeithio'n negyddol ar weithgareddau'r gymuned fusnes. Mae Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 5 yn nodi "byddwn yn creu Cymru lle gall pawb o'r amrywiaeth lawn o gefndiroedd gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, cael eu lleisiau wedi'u clywed, a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain." Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos effeithiau cadarnhaol eang cydraddoldeb ar yr economi, a rhagwelir y bydd hyn hefyd yn berthnasol i economi Cymru drwy sicrhau bod mwy o bobl o bob cefndir yn dod yn arweinwyr ar draws sectorau Cymru. Fodd bynnag, gan nad yw'r effeithiau uniongyrchol yn wybyddus ar hyn o bryd, mae'r effaith wedi'i disgrifio fel "bach" ar hyn o bryd am y rheswm hwn.

Camau gweithredu a nodir mewn cynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol fydd prif ysgogwyr newid ar lefelau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, gellir disgwyl yn rhesymol i gamau gweithredu sydd â'r nod o sicrhau lleoliadau hygyrch i bobl Anabl gynyddu nifer y cwsmeriaid a fydd yn gallu cael mynediad, gan felly gynyddu'r potensial ar gyfer gwerthiannau gwirioneddol.

Mae'n debygol y bydd cost uwch i fusnesau lle nad yw'r lleoliadau hyn yn hollol hygyrch ar hyn o bryd. Mae camau gweithredu i wella mynediad a gwasanaethau cysylltiedig wedi'u cynnwys mewn cynlluniau i gefnogi pobl Anabl a byddant yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir ac (o bosibl) yn cynyddu proffidioldeb i fusnesau Cymru yn ogystal ag effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd mynediad i gwsmeriaid.

### 4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

### Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?

Mae'n ofynnol i sefydliadau'r Sector Cyhoeddus gydymffurfio â chyfraith Cydraddoldeb.

Cyflwynodd Deddf 2010 hefyd Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd â thri nod cyffredinol. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath

Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw sicrhau bod y rhai sy'n ddarostyngedig iddi yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb wrth gyflawni eu busnes o ddydd i ddydd.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol wedi'i gynllunio fel fframwaith i gefnogi cyflawni camau gweithredu mewn cynlluniau unigol. Gan y bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu a gymerir gan gyrff cyhoeddus eraill, bydd y cynllun yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswyddau. Bydd hyn hefyd yn dod â manteision posibl i sefydliadau sector cyhoeddus eraill am y rhesymau a nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar sefydliadau'r Sector Cyhoeddus i atgynhyrchu ein Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ac nid ydynt wedi'u gwahardd rhag datblygu eu dull eu hunain o gyflawni ymyriadau sy'n seiliedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol (efallai y byddant yn ffafrio ymagwedd wedi'i theilwra). Fodd bynnag, mae

Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i osod Amcanion Cydraddoldeb sy'n adlewyrchu amcanion Llywodraeth Cymru, gan ystyried unrhyw gyd-destun rhanbarthol neu leol yn ôl yr angen.

### 4.3 Y Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'r hyn maent yn ei wneud?**

Cydnabyddir pwysigrwydd cyfraniad y trydydd sector at hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Bydd gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector i gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn parhau gyda phob cynllun unigol yn cael ei grwpiau rhanddeiliaid sefydledig ei hun sy'n ymwneud â'r trydydd sector.

Gall Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau sy'n cyflawni yn erbyn ein Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, cynlluniau nodweddion gwarchodedig a pholisïau sy'n cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol, yn unol â'r egwyddorion a nodir yng Nghynllun y Trydydd Sector.

Wrth i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol gael ei symud ymlaen, bydd gwaith yn parhau gyda sefydliadau'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol a'r camau gweithredu sydd wedi'u hymgorffori ynddynt, ochr yn ochr â holl bolisïau cydraddoldeb a hawliau dynol. Bwriedir ymgysylltu â'r trydydd sector hefyd fel rhan o'r gwaith o ddiwygio ysgogiadau.

### 4.4 Effaith ar Gyfiawnder

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oes digon o eglurder bob amser rhwng deddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau dynol a chydraddoldeb. Nododd adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru hefyd nad oedd rhai deiliaid dyletswyddau yn glir ynghylch eu rhwymedigaethau.

O fewn y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, mae Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2 yn canolbwyntio ar greu "Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus."

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol a'r dirwedd ddeddfwriaethol, er enghraifft drwy gynhyrchu deunyddiau ar-lein, fel fideo a ryddhawyd ar Ddiwrnod Hawliau Dynol 2024 a oedd yn esbonio'n glir y gwahaniaeth rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn darparu'r fframwaith ar gyfer polisi hawliau dynol o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn

cynnwys darparu strwythur ar gyfer gweithgarwch codi ymwybyddiaeth pellach o amgylch hanes ac amserlen Deddf Hawliau Dynol 1998 (a ddaeth i rym yn 2000) (yn enwedig Erthygl 11 sy'n canolbwyntio ar beidio â gwahaniaethu), sy'n ymgorffori'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith ddomestig Prydain, Deddf Cydraddoldeb 2010, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar godi ymwybyddiaeth o Gytundebau Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig a chyfathrebu gan Gyngor Ewrop. Mae'r gwaith i fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau i ymgorffori'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA) yn cael ei arwain gan y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol annibynnol y mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar ei gyfer. Mae'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn adrodd i'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol. Mae'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn asesu opsiynau ar gyfer gorfodadwyedd hawliau a bydd yn anelu at ddarparu opsiynau yn erbyn cymryd camau yn ôl o ran hawliau.

Gofynnir i Weinidogion Cymru ddangos eu bod wedi ystyried hawliau wrth wneud penderfyniadau fel rhan o'r asesiad effaith (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol).

### 4.5 Effaith Economaidd-gymdeithasol

Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a'r camau gweithredu o fewn y cynlluniau nodweddion gwarchodedig penodol, ochr yn ochr â phob polisi sy'n cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol, yn ystyried anghenion unigolion, cymunedau a chymunedau buddiant fel rhan o'r gwaith o'u cyflawni. Bydd effeithiau yn digwydd yn bennaf trwy'r cynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol a pholisïau cydraddoldeb a hawliau dynol. Penderfynir ar unrhyw ymyriadau pellach neu ddatblygiad Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol ychwanegol yn ystod y cylch pedair blynedd nesaf trwy ymgynghori pellach a'u hychwanegu at Gynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2024 – 2029 wedi'i adnewyddu ac unrhyw gynlluniau dilynol.

Gofynnir i Weinidogion Cymru ddangos sut maent wedi ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol yn unol ag Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 a'r cynlluniau a'r polisïau nodweddion gwarchodedig gwahanol. Bydd Asesiadau Effaith Integredig (sy'n cynnwys cydrannau Economaidd, Economaidd-gymdeithasol, a Chydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

### 5.1 Adnoddau Naturiol

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, bwriedir i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol fel fframwaith ddarparu dull croestoriadol ac integredig, gan gynnwys deall y cysylltiadau rhwng cydraddoldeb a natur yn well.

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn cynnwys Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol penodol ar yr amgylchedd, Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7: Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

Roedd ymatebion i Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7 yn yr ymgynghoriad yn galw am fwy o ymgysylltu â'r cyhoedd a'r rhai yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau ond nid oeddent yn codi unrhyw bryderon.

Bydd penderfyniadau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â gweithredu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028, a'r cynlluniau nodweddion gwarchodedig penodol a pholisïau eraill sy'n cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu llywio gan Asesiadau Effaith Integredig. Drwy ddarparu fframwaith i gefnogi'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, bwriedir i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol gynyddu i'r eithaf effeithiau'r cynlluniau unigol sy'n cynnwys camau gweithredu penodol sy'n cael effaith ar adnoddau naturiol i gefnogi Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7, er enghraifft, gwaith sy'n gysylltiedig â thrawsnewidiad cyfiawn mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd fel y cyfeirir ato yn adran 5.3 isod.

**5.1a Sut bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol?**

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; ac wrth wneud hynny,
- Mabwysiadu dull seiliedig ar le.

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod.

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn cynnwys Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol penodol ar yr amgylchedd, Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7: Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

**5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

- *Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – trwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn;*
- *Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas;*
- *Cynnal capasiti cynhyrchiol, yn enwedig trwy wella ansawdd y pridd a bioddiogelwch;*
- *Lleihau'r risg o lifogydd;*
- *Cefnogi mesurau lliniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd trwy ddulliau sy'n rhoi pwyslais ar ecosystemau;*
- *Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd aer;*
- *Gwella ansawdd a sicrhau maint ein dŵr;*
- *Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, megis trwy ddefnyddio adnoddau yn effeithlon ac ynni adnewyddadwy;*
- *Cefnogi dulliau ataliol o sicrhau canlyniadau iechyd, gyda ffocws penodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol megis llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl;*
- *Cefnogi gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd;*
- *Cefnogi cydlyniant cymunedol; a*
- *Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.*

**Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod.**

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

- *Cefnogi dulliau ataliol o sicrhau canlyniadau iechyd, gyda ffocws penodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol megis llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl:*
    - Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.
- *Cefnogi gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd:*

  - Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.

- *Cefnogi cydlyniant cymunedol:*
  - Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4: Byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb.

- *Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog:*
  - Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 6: Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg.

### 5.2 Bioamrywiaeth

**Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i chi lenwi'r** Error! Reference source not found.**, yn atodiad F isod.**

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod.

### 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

### 5.3a Carbon

**Sut bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr?**

Mae newid yn yr hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau trwy gamau gweithredu i ddatgarboneiddio ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy gynyddu ein gwytnwch. Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod. Gan fod yr asesiad effaith hwn yn ymwneud â'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol fel fframwaith cyflawni, nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

**Dim newid sylweddol mewn allyriadau**

Gan gyfeirio at Gynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029, mae Swyddogion wedi ystyried effaith carbon y cyngor hwn. Nid yw'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol wedi'u meintioli oherwydd disgwylir i'r rhain ddisgyn o dan y trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Mae fframwaith Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ei hun yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar allyriadau carbon.

Mae hyder uchel yn yr asesiad hwn.

Mae swyddogion polisi Sero Net wedi cefnogi'r gwaith o ddrafftio Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7 sy'n canolbwyntio'n arbennig ar yr amgylchedd: "Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd."

A yw'r cynnig hwn yn gyson â chynllun diweddaraf Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau, Cymru Sero Net? YDY

1. **Pontio teg**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bontio teg i sero net erbyn 2050. Ydych chi wedi ystyried goblygiadau'r cynnig hwn o safbwynt pontio teg? YDY

Gweler Adran 5.3a. Arweiniodd gwaith gyda'r tîm polisi sero net at yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol canlynol a'i fanylion:

"Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd."

Mae hyn yn cynnwys mesurau a drafodwyd gyda'r Tîm Polisi Sero Net i symud i gam "Pontio Teg" eu nod cyffredinol ar gyfer gwella a brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

**5.3b Gwydnwch hinsawdd**

**A fydd unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU yn effeithio ar y cynnig hwn?**

Na. Cydnabyddir bod pobl â nodweddion gwarchodedig neu o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mewn perygl anghymesur o ddioddef effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol wedi'i gynllunio fel fframwaith i gefnogi ymateb mewn perthynas â'r risgiau hyn mewn perthynas â'r grwpiau hyn wrth gefnogi gwireddu Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7.

Gweler Adran 5.3a. Wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, arweiniodd gwaith gyda'r tîm polisi at yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol canlynol a'i fanylion:

Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7: Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

**A fydd y cynnig hwn yn gwaethygu unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU?** Na

Gweler Adran 5.3a. Wedi'i ymgorffori o fewn Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, arweiniodd gwaith gyda'r tîm polisi at yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol canlynol a'i fanylion:

Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7: Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

- A fydd y cynnig hwn yn lleihau unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU? Bydd
  Os bydd, disgrifiwch sut.

Gweler Adran 5.3a. Arweiniodd gwaith gyda'r tîm polisi at yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol canlynol a'i fanylion:

Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7: Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

Bwriad y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol fel fframwaith cyflawni yw cefnogi camau gweithredu mewn perthynas ag Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7 yn well wrth gefnogi pontio teg a thrwy hynny liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â grwpiau gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

### 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Cyfeiriwch at y canllawiau asesu effaith integredig a'r dolenni perthnasol i benderfynu a oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen AAS yn ôl y gyfraith ai peidio.**

Gweler trosolwg Adran 5.1.

Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol. Mae'r amgylchedd wedi'i ystyried yn ein Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028 ac maent yn cynnwys Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol penodol a manylion am yr amgylchedd:

Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7: Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

### 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ôl y gyfraith ai peidio.**

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod. Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

### 5.6 Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol yn ôl y gyfraith ai peidio.**

Gweler trosolwg Adran 5.1 uchod.  Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion hyn ac felly nid yw'r asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

## Adran 6. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

**Beth fydd yr effaith ar anfantais Economaidd-gymdeithasol?**

### 6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i benderfyniadau sydd o natur strategol yn unig.

Wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, a’r ymgynghoriad cysylltiedig ar Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028 ac egwyddorion yr ymagwedd, esboniwyd natur y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol sef ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol, wrth wneud penderfyniadau o natur “strategol” ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i ddymunoldeb eu harfer mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio i leihau'r anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd yn cyfeirio at agweddau ar fywyd 'cymdeithasol' (eich cyfleoedd bywyd a lle rydych chi'n byw) ac 'economaidd' (faint o arian sydd gennych ar gyfer eitemau hanfodol ac eitemau nad ydynt yn hanfodol).

Mae tudalen 8 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn trafod sut y gellir ystyried croestoriadedd yn well trwy ymagwedd integredig at gydraddoldeb a hawliau dynol, sy'n cael ei adlewyrchu yn y fframwaith Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol arfaethedig. Er bod y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn gofyn am ystyried croestoriadedd ar draws nodweddion gwarchodedig a chefndir economaidd-gymdeithasol, nid yw'n cydnabod anfantais economaidd-gymdeithasol fel nodwedd warchodedig. Cydnabyddir yn nogfen Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru y

byddai modd cryfhau dyheadau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol trwy ystyried hawliau dynol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

Disgrifir enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniadau yng nghanllawiau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol fel Iechyd ac iechyd meddwl gwaeth, Disgwyliad oes iach is, Sgiliau a chyrhaeddiad addysgol gwaeth, gwaith gyda chyflog is, mwy o siawns o ddioddef trosedd a pheidio â theimlo'n ddiogel, cyfranogiad gwaeth mewn bywyd cyhoeddus, mwy o siawns o fyw mewn tai llai na digonol a mynediad gwaeth at drafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r dystiolaeth ganlynol wedi'i hystyried er mwyn deall cyfleoedd i leihau anghydraddoldeb o'r fath trwy'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Cyflwynir pob un trwy gamau gweithredu sy'n cael eu symud ymlaen trwy'r cynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol

Adolygu'r dystiolaeth: anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol: enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1:** Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi. Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol anfanteisiol yn cael effaith hirdymor ar bob agwedd ar fywyd unigolyn, o'i eni hyd at fod yn oedolyn. Mae tlodi yn gysylltiedig â chanlyniadau addysgol a chanlyniadau cysylltiedig â gwaith neu iechyd gwaeth.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus. Mae sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau dynol â'r potensial i rymuso pobl i herio dros eu hawliau, gallai hyn effeithio ar leihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt. Gall nifer o ffactorau gyfyngu ar fynediad at wasanaethau, o ddarparu gwasanaethau digonol i anhawster cymryd rhan lawn mewn bywyd diwylliannol oherwydd gwahaniaethu, gyda chyfranogiad llawn mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru yn gysylltiedig â hil, hunaniaeth rhywedd ac anabledd. Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod sawl maes y gellid mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau i ymgorffori gwerthoedd gwlad agored a theg lle mae pawb yn gallu cymryd rhan mewn agweddau ar fywyd cymunedol yn unol â'u dymuniad (FGC, 2020)

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4:** Byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau, gan gynnwys menywod, unig rieni, lleiafrifoedd hiliol ac ethnig, plant, pobl anabl, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (Alston, 2018). Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol

hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 5:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb o'r amrywiaeth lawn o gefndiroedd gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, cael eu lleisiau wedi'u clywed, a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain. Mae nodweddion croestoriadedd yn effeithio ar gyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus a'r gallu i gael mynediad at wasanaethau penodol. Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 6:** Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg. Mae bylchau cyflog a thlodi mewn gwaith yn effeithio ar rai grwpiau yn llawer mwy nag eraill. Mae gweithwyr anabl a gweithwyr o Leiafrifoedd Ethnig mewn mwy o berygl o wynebu tlodi mewn gwaith.

Mae gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, ac mae aelwydydd sy'n cynnwys unigolyn anabl yn fwy tebygol o wynebu problemau ariannol (EHRC, 2018).

Mae pobl anabl yn llai tebygol o weithio mewn galwedigaethau cyflog uchel, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl, ac mae pobl anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phobl nad oes ganddynt amhariad (EHRC, 2018). Mae adroddiad Llesiant Cymru 2020 yn dangos bod bylchau cyflog yn bodoli ar gyfer menywod, pobl anabl a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025-2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028 yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7:** Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar y gallu i gael mynediad at ddarpariaethau sero net, fel trafnidiaeth a gwelliannau i gartrefi. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel llifogydd yng Nghymru, yn debygol o effeithio ar draws y grwpiau hynny sy'n dioddef o SED. Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

Gofynnwyd y cwestiwn isod a derbyniwyd nifer o ymatebion. Roedd rhai yn canolbwyntio ar yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a mynd i'r afael â'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd ynddynt gydag eraill yn canolbwyntio mwy ar fecanwaith datblygu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

**Cwestiwn 6: A ydych yn credu y bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn ein helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol?**

Derbyniwyd nifer o ymatebion manwl i'r cwestiwn hwn, sydd wedi llywio'r gwaith o ail-ddrafftio Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a datblygiad Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 fel y maent yn ymwneud â gweithredu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

Fel enghraifft o'r ymatebion a dderbyniwyd:

"Mae'n bwysig nodi bod y diffiniadau o grwpiau yn mynd y tu hwnt i nodweddion gwarchodedig, sy'n cael ei gydnabod gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol."

"Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth cyrff sector cyhoeddus fel cyflogwyr a'u gallu i leihau anghydraddoldebau trwy'r rôl hon. Rydym hefyd yn cefnogi'r pwyslais a roddir ar brofiad bywyd o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gall y rhai sydd â phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol (neu fathau eraill o anfantais) gael eu hystyried yn arbenigwyr trwy brofiad. Mae ymgysylltu ag arbenigwyr trwy brofiad yn rhoi cyfle i ddangos ymrwymiad i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol trwy eu trin â'r un parch ag unrhyw arbenigwyr eraill y gellid ymgynghori â hwy."

"Gan mai hwn yw iteriad cyntaf Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ers i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ddod i rym, mae cynnwys amcan pwrpasol sy'n cefnogi mynd i'r afael ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn ddatblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd [mewn cwestiwn arall], efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ad-drefnu ei hamcanion i sicrhau nad yw'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn cysgodi egwyddorion allweddol y fframwaith cydraddoldeb sy'n bodoli eisoes, h.y. nodweddion gwarchodedig."

"Mae gan rai o'r nodau gysylltiadau cryfach â chyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ond mae pob un o'r 7 yn cyfrannu mewn ffordd. Mae yna lawer o faterion systemig sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yng Nghymru a'r DU, sy'n cael effaith andwyol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol a bydd yn cymryd amser hir i'w gwella. Ac fel y dywedwch 'gall y maes cydraddoldeb a hawliau dynol esblygu'n gyflym.' felly bydd angen adolygu'r gwaith yn gyson, gan integreiddio ymgysylltiad."

Gofynnwyd i Weinidogion Cymru ddangos sut maent wedi ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau yn unol â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028, cynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol a pholisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, wrth iddynt ddatblygu polisïau, ymyriadau a chyflawni, gydag Asesiadau Effaith Integredig perthnasol (a fydd yn cynnwys Asesiad o Effeithiau Economaidd ac Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol fel elfennau cydrannol) yn ofynnol i lywio pob penderfyniad.

**Casgliad**

## 8.1 Sut mae'r bobl y mae’r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi’u cynnwys wrth ei ddatblygu?

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol newydd yn cael ei gynnig i ddarparu fframwaith cyflawni integredig i fwrw ymlaen â’r gwaith o gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Bydd y cynllun hwn yn symleiddio gwaith yn y dyfodol, gan ddarparu fframwaith mwy cryno i resymoli a rhoi ffocws ar gyflawni ymrwymiadau cydraddoldeb a hawliau dynol traws-lywodraethol presennol, tra'n cefnogi cyflawni mwy effeithiol.

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 arfaethedig yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni yn erbyn galwadau i integreiddio polisi cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn dwyn ynghyd yr argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol A yw Cymru'n Decach? ac eraill yn yr adroddiad Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ac ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig trwy ddarparu ymrwymiad cyhoeddus i'r dull newydd hwn.

Mae’r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â chreu â chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2024- 2028 (Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028) a lywiodd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol cysylltiedig ar gyfer yr un cyfnod.

Mae’n canolbwyntio ar y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ei hun; fframwaith cyflawni i wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a darparu dull mwy effeithiol a chyson o gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn hefyd yn adlewyrchu bod y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cyflwyno, am y tro cyntaf, ddatganiad hawliau dynol o ymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol a dull sy’n rhoi pwyslais ar hawliau dynol wrth ddatblygu polisi a rhaglenni. Sylwch nad yw'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol.

Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid a'r cyhoedd drwy gydol datblygiad yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol, gan ystyried adborth i gyrraedd y set derfynol o Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029.

Ym mis Gorffennaf 2023, rhannwyd dogfen drafod gychwynnol gyda sefydliadau cydraddoldeb, arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill a chynhaliwyd gweithdy ar-lein i drafod hyn. Defnyddiwyd adborth ac ymatebion o'r ymatebion i’r ddogfen a'r gweithdy i ddatblygu'r ddogfen ymgynghori gyhoeddus lawn (dolen uchod).

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar y Nod Hirdymor, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 ar 13 Tachwedd. Cynhaliwyd digwyddiad ar-lein ychwanegol ym mis Chwefror 2024, yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn yr ymatebion ac yn ystod y

gweithdy yn llywio datblygiad Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol terfynol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029.

Bydd ymgysylltu parhaus yn digwydd â rhanddeiliaid, y cyhoedd, ac arbenigwyr eraill ar gyflawniad a dyfodol y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ac unrhyw newidiadau polisi neu gamau gweithredu penodol sy'n deillio o'r fframwaith yr ydym yn ei gynnig.

**8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?**

Rhagwelir y gallai effeithiau buddiol sylweddol neu gymedrol ddeillio o gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 - 2029, a chamau gweithredu cysylltiedig o fewn cynlluniau a pholisïau nodweddion gwarchodedig unigol, er enghraifft gwasanaethau ataliol/cymorth gwell a mwy hygyrch.

Drwy ymateb i'r Dystiolaeth a amlinellir yn adroddiad Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ac integreiddio hawliau dynol yn ein cynllunio cydraddoldeb strategol, bydd yr effeithiau cadarnhaol mwyaf yn cael eu sicrhau trwy ystyried polisi trwy lens fwy croestoriadol a deall a lliniaru effeithiau anfwriadol a negyddol yn well.

Bydd Gweinidogion yn ystyried y camau gweithredu o dan bob cynllun nodweddion gwarchodedig fel rhan o'u gwaith o wneud penderfyniadau ar gyfeiriad polisi yn y dyfodol.

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu mecanweithiau monitro clir - mae'r rhain yn cael eu datblygu ar wahân.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi o ganlyniad i Gynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 neu Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)**

Disgwylir i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol gael effaith gadarnhaol ar hawliau pobl anabl yng Nghymru.  Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn darparu'r fframwaith ar gyfer polisi Hawliau Dynol.  – Mae gwaith tuag at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ymgorffori'r cytundeb hawliau dynol, CCUHPA, yng Nghyfraith Cymru yn mynd rhagddo trwy'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol, is-grŵp o'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol. Mae hawliau o dan y CCUHPA yn cael eu dadansoddi fesul hawl i sefydlu ai ymgorffori pob hawl yw'r opsiwn a ffefrir a'r opsiwn ymarferol.

Rhaid i weithredoedd Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y nodir yn adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

Mae’r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn symud egwyddorion y Confensiwn yn eu blaen o ran ei dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol parhaus.

Mae anabledd yn un o'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn cefnogi pobl anabl. Ymgysylltwyd â sefydliadau hawliau anabledd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ogystal â derbyn ymatebion ar-lein (gan gynnwys Anabledd Cymru), ymunodd rhanddeiliaid â digwyddiad ar-lein. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA). Bydd yr ymgysylltiad hwn yn parhau trwy gydol y broses o weithredu Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

Disgwylir i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol gael effaith gadarnhaol ar hawliau pobl Anabl yng Nghymru – drwy brif ffrydio ystyriaeth ar gyfer hawliau dynol o fewn ein prosesau effaith ar gydraddoldeb presennol. Bydd dull hawliau dynol yn ategu'r ymrwymiad presennol i hyrwyddo'r model cymdeithasol o anabledd trwy ofyn i swyddogion polisi ystyried cynnwys pobl anabl trwy ddull sy’n 'seiliedig ar hawliau' yn ogystal â thrwy lens deddfwriaeth y ddeddf cydraddoldeb bresennol.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Drwy integreiddio gwaith Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb â hawliau dynol, fel yr argymhellir yn adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, bydd hyn yn sicrhau bod ystyriaeth o hawliau plant a phobl ifanc yn cael ei ymgorffori ymhellach wrth gyflawni polisi Llywodraeth Cymru (fel y nodir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011) drwy ddull croestoriadol ar draws nodweddion gwarchodedig a chymunedau buddiant. Bydd mabwysiadu ymagwedd sy’n rhoi pwyslais ar hawliau dynol yn cryfhau ac yn ymgorffori ymagwedd sy’n pwysleisio hawliau plant o fewn Llywodraeth Cymru ymhellach gan adeiladu ar y llwyfan a grëwyd gan Hawliau Plant o fewn Llywodraeth Cymru. Mae gwaith sydd ar y gweill ar ailddatblygu'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb fewnol i gynnwys hawliau dynol yn cyfeirio’n benodol at Hawliau Plant o dan ymbarél hawliau dynol, a fydd yn ategu'r prosesau Asesu Effaith ar Hawliau Plant presennol.

Gan fod oedran yn un o'r Nodweddion Gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae integreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol o fewn y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn ymateb i orgyffwrdd naturiol â CCUHP. Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn atgyfnerthu ac adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r CCUHP fel sail ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc, a sicrhau bod eu hawliau yn parhau i fod yn ganolog i’r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru. Ymgysylltwyd â sefydliadau hawliau plant (e.e. Comisiynydd Plant Cymru; Whizz Kidz, Lleisiau Ifanc

Cymru) yn ystod yr ymgynghoriad gan dderbyn ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori. Disgwylir i'r ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc gael ei gryfhau gan y dull a argymhellir yn y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

Bydd yr ymgysylltiad hwn yn parhau trwy gydol y broses o weithredu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028.

**Y Gymraeg**

Er nad yw iaith yn Nodwedd Warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bod amddiffyn y Gymraeg yn digwydd o dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau cysylltiedig), mae’r agendâu polisi cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ategu ac yn hysbysu ei gilydd.

Nid oes unrhyw effaith negyddol amlwg ar y Gymraeg wedi'i nodi. Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg; bydd cyflwyno unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig a briodolir i gynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol hefyd yn digwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg hefyd wedi'i gwblhau.

**Hyrwyddo Cyfleoedd Economaidd i Bawb (mynd i'r afael â thlodi)**

Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 ac unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig a briodolir i gynlluniau nodweddion gwarchodedig gwahanol a pholisïau cydraddoldeb a hawliau dynol yn cefnogi'n uniongyrchol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch economaidd a mynd i'r afael â thlodi.

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl â Nodweddion Gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Cymerodd sefydliadau cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar leihau tlodi, ran yn yr ymgynghoriad a mynychu ein digwyddiad ar-lein. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg wedi'u nodi. Bydd yr ymgysylltiad hwn yn parhau trwy gydol y broses o weithredu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028.

Mae Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1 yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi:: Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig**:

- **yn sicrhau’r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu;**

- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Yn unol â 'ffyrdd o weithio' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, nod y penderfyniad i integreiddio polisi cydraddoldeb a hawliau dynol yw sicrhau'r effaith fwyaf a chyflawni canlyniadau polisi tecach a mwy cyfartal ar draws y meysydd hyn, tra hefyd yn ceisio ystyried a lliniaru yn erbyn effeithiau croestoriadol ehangach anfwriadol neu negyddol.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hwn yn integreiddio datganiad hawliau dynol o ymrwymiad â chydraddoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yn well.

Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn torri ar draws yr holl nodau llesiant:

- **Cymru lewyrchus** – drwy gryfhau'r ddealltwriaeth o'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'i gweithrediad o fewn llywodraeth Cymru.
- **Cymru iachach** – drwy gydnabod bod anghydraddoldeb canlyniadau mewn perthynas ag iechyd yn aml yn gysylltiedig â grwpiau nodweddion gwarchodedig, hefyd drwy gryfhau dealltwriaeth pobl o'u hawliau i ofal iechyd.
- **Cymru fwy cyfartal** - drwy brif ffrydio cydraddoldeb ar draws gwaith llywodraeth Cymru, yn enwedig deall natur groestoriadol anghydraddoldeb.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - cryfhau gweithrediad y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a phan fo dyletswyddau penodol o reidrwydd yn golygu cryfhau a meithrin perthnasoedd da rhwng cymunedau.

Mae'r pum ffordd hyn o weithio wedi arwain datblygiad yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol sy'n cael eu hategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; byddant hefyd yn cefnogi'r Ddeddf. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod ag egwyddor datblygu cynaliadwy neu 5 ffordd o weithio. Dylid cymhwyso'r ffyrdd hyn o weithio i'r gwaith o ddatblygu polisi er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol, gan sbarduno effaith gadarnhaol i'n cymunedau, a lliniaru effaith andwyol bosibl. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cefnogi'r 5 ffordd o weithio ymhellach (fel isod).

Hirdymor – Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn darparu nod hirdymor clir ac yn darparu amcanion cydraddoldeb cenedlaethol i lunio cynlluniau cydraddoldeb a sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu at feysydd sydd â'r effaith hirdymor fwyaf.

Atal – Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol wedi'u cynllunio i dargedu effaith lle mae ei hangen fwyaf i sicrhau nad yw anghydraddoldebau yn gwaethygu. Bydd gwell dealltwriaeth o effaith ar draws cydraddoldeb, hawliau dynol ac anghydraddoldeb yn

sicrhau bod effaith negyddol bosibl yn cael ei lliniaru, gan gymryd pob cyfle i gael effaith gadarnhaol.

Integreiddio – Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn cyflawni'n uniongyrchol yn erbyn Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ac amcan Llesiant Llywodraeth Cymru 'Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math'. Bydd cymryd ymagwedd integredig wrth ystyried Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn sicrhau ffocws cliriach ar groestoriadedd.

Cydweithredu – Bydd alinio cynlluniau cydraddoldeb yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu lle mae eu hangen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb parhaus, tra'n gwireddu hawliau dynol.

Cyfranogiad – Bydd cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn gofyn am ymrwymiad a gweithio mewn partneriaeth ar draws Llywodraeth Cymru a thu hwnt. Trwy'r fframwaith mesur a thrwy berthnasoedd â rhanddeiliaid, bydd angen bod yn siŵr bod y camau gweithredu a gymerir ar draws cynlluniau cydraddoldeb yn cyflawni'r effaith angenrheidiol.

Mae hyn hefyd yn cael ei ystyried yn y fframwaith mesur sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029.

### Hirdymor

Bwriad y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yw darparu fframwaith i gefnogi'r gwaith o gydbwyso ystyriaethau tymor byr a hirdymor yn well.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hefyd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol ac yn creu llwyfan i ymestyn y tu hwnt i oes Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025–2029.

Mae gwella'r gwaith o gydlynu cyflawni ar draws cynlluniau nodweddion gwarchodedig priodol, gan gynnwys drwy well monitro, yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn well fel canlyniadau tymor hwy i Gymru. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer diwygio ysgogiadau llywodraeth fewnol yn systemig, gan arwain at wneud penderfyniadau gwell a gwell canlyniadau.  Bwriad Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yw cysylltu ymyriadau strategol a chynlluniau cysylltiedig (presennol ac yn y dyfodol) â pholisi cydraddoldeb a hawliau dynol wrth iddynt ddatblygu dros amser.

### Effaith

Mae'r Nod Cydraddoldeb Hirdymor ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a gynhwysir yng Nghynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn hoelio sylw ar faterion cydraddoldeb blaenoriaethol i sicrhau effaith lle mae ei hangen fwyaf.  Mae

gwaith manwl wedi'i wneud gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar draws holl gymunedau buddiant nodweddion gwarchodedig yn ystod yr ymgynghoriad ar Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025–2029.

Bydd yr ymgysylltiad a'r gwaith cydweithredol hwn yn parhau ac yn edrych i sicrhau bod Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith ar y modd yr ystyrir cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws polisïau'r llywodraeth i leihau gwahaniaethu a gwella tegwch canlyniadau yn gyffredinol.

Fel fframwaith unedig ar gyfer sut y bydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gyflawni yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, prif effaith y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol fydd helpu i wireddu'r nodau hyn. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn rhesymoli camau gweithredu Llywodraeth Cymru; yn lleihau dyblygu a helpu i nodi meysydd cyffredin lle gellir cyfuno adnoddau i sicrhau'r effeithiau buddiol gorau. Yn benodol, mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol wedi'i ddatblygu fel fframwaith i gefnogi'r gwaith o ddiwygio ysgogiadau mewnol Llywodraeth Cymru fel rhan o'r newid systemig a diwylliannol ehangach y mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu i'w gefnogi.

Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn parhau i helpu i asesu effaith y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

Mae Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn dangos y '5 ffordd o weithio' a nodir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy a bydd y ffordd hon o weithio yn parhau trwy gydol y broses o weithredu Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 – 2029. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bobl â Nodweddion Gwarchodedig yr un rhyddid, urddas, dewis a rheolaeth â dinasyddion eraill yn y gymuned. Mae manylion am hyn yn adran 1.

### Y Rhaglen Lywodraethu: Ffyniant i Bawb

Mae cydraddoldeb, fel thema drawsbynciol yn cysylltu â'r Rhaglen Lywodraethu gyda'r ymrwymiadau canlynol wedi'u nodi fel a ganlyn:

#### *Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math*

O fewn y Rhaglen Lywodraethu, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i:

- Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (a elwir bellach yn Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol).
- Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu.

- Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a’r rhai sy’n cael arian cyhoeddus yn mynd i’r afael â gwahaniaethau cyflog.
- Treialu dull o ymdrin â’r Incwm Sylfaenol.
- Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli’n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a’n rhwydwaith amgueddfeydd.
- Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru’n fwy hygyrch i bobl anabl.
- Parhau â’n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau.
- Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw.
- Cryfhau’r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â’r cartref.

Mae pob un o'r ymrwymiadau uchod yn cael eu symud ymlaen yn eu rhinwedd eu hunain. Mae rhai Camau Gweithredu sy'n cefnogi'r ymrwymiadau uchod yn cael eu symud ymlaen trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol. Ni fydd Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025–2029 yn ailadrodd y Camau Gweithredu hyn, ond mae'r camau hyn yn rhan o gyflawni ymrwymiadau Gweinidog Cymru i'r Etholwyr.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg.

### 8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Bydd cynnydd yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025–2029 yn cael ei fonitro drwy olrhain y gwaith o gyflawni Camau Gweithredu cysylltiedig a briodolir i Gynlluniau Nodweddion Gwarchodedig unigol, sy'n eiddo i wahanol Grwpiau polisi ledled Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn nodi trefniadau ar gyfer monitro cyflawniad.

Yn unol â gofynion Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd adroddiad cryno blynyddol ar gynnydd yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 – 2029 yn cael ei gyhoeddi.

## Asesiadau Effaith Llawn

### A. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

## 1. Amcanion polisi

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn wedi'i gwblhau gan gyfeirio at Gynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn ymateb i alwadau yn adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Hawliau Dynol yng Nghymru ac adroddiad 'A yw Cymru'n Decach' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i integreiddio hawliau dynol a dull hawliau dynol yn well â nodau cydraddoldeb a phrosesau llunio polisïau Llywodraeth Cymru.

Mae adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, er enghraifft, yn amlinellu: "Dylai Llywodraeth Cymru [...] integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisïau i ddarparu gweledigaeth gryfach i hyrwyddo cydraddoldeb a llesiant. Dylai hawliau dynol gael eu hymgorffori ym mhob proses polisi a chynllunio strategol."

Gwnaed y penderfyniad i integreiddio hawliau dynol â chydraddoldeb o fewn un cynllun i gydnabod y gorgyffwrdd sylweddol rhwng y ddau faes. Er enghraifft, mae plant yn unigolion sy'n cael eu gwarchod o dan nodwedd warchodedig oedran yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ond mae ganddynt hefyd set benodol o hawliau a roddir iddynt o dan CCUHP.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hefyd yn darparu fframwaith i amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gyflawni ei Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol. Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol hyn yn darparu'r nod terfynol y mae'r cynllun yn gweithio tuag ato ac maent wedi bod yn destun eu Hasesiad Effaith Integredig eu hunain ac asesiad effaith ar hawliau plant.

Cymeradwyodd y Cabinet yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, a gofynnir iddynt bellach gymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol a fydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sut y byddant yn cael eu cyflawni.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol hefyd wedi'i ddatblygu fel fframwaith i gefnogi'r gwaith o ddiwygio ysgogiadau mewnol Llywodraeth Cymru fel rhan o'r newid systemig a diwylliannol ehangach y mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu i'w gefnogi. Bydd y gwaith ar wahân hwn yn ystyried yr effeithiau cysylltiedig wrth i'r diwygiadau hyn ddigwydd, felly eto nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ei hun yn cynnwys camau gweithredu uniongyrchol.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol ar ddatblygiad yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol sy'n sail i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

Mae'r fframwaith newydd hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r ymchwil a gomisiynwyd ym mis Ionawr 2020 i archwilio opsiynau i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad ymchwil Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, dan arweiniad yr Athro Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor, Diverse Cymru ac Young Wales yn dod i'r casgliad bod cysylltiadau cryf rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol.

Fel un o brif argymhellion yr ymchwil hon, mae'n argymell *"Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisïau i ddarparu gweledigaeth gryfach i hyrwyddo cydraddoldeb a llesiant. Dylai hawliau dynol gael eu hymgorffori ym mhob proses polisi a chynllunio strategol."*

Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 yn atgyfnerthu ac adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r CCUHP fel sail ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc, a sicrhau bod eu hawliau yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Yn ystod cyfnod ymgynghorol datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a chyda phrif elusen plant yng Nghymru, 'Plant yng Nghymru'.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ar yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol gyda rhanddeiliaid cydraddoldeb ym mis Gorffennaf 2023, trwy adborth electronig i gwestiynau a gweithdy ar-lein. Cyfrannodd y pwyntiau a godwyd yn yr ymgysylltiad hwn at lunio'r ddogfen ymgynghori lawn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig a agorodd ar 13 Tachwedd ac a gaeodd ar 12 Chwefror 2024. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar-lein mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys fersiwn Cyfeillgar i Ieuenctid, i'r cyhoedd gael ei hystyried, i gasglu sylwadau, safbwyntiau ac awgrymiadau, a chynhaliwyd digwyddiad ar-lein hefyd i gasglu adborth ychwanegol.

Roedd yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael â'r dull datblygu ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 llawn. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau mewn dau gam: y cymeradwyo cychwynnol a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 ac yna datblygu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 a'i gyhoeddi wedyn. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar Nod Cydraddoldeb Hirdymor, set newydd o Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol ar gyfer 2024 – 2028, a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, sy'n ymgorffori'r Nod Cydraddoldeb Hirdymor a'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn hoelio sylw ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol blaenoriaethol er mwyn cyflawni polisïau gwell a darparu gwasanaethau gwell, gan gynnwys dyrannu adnoddau.  Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol.

Roedd sefydliadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu eu barn ar gynnwys Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn ystod y cyfnod ymgynghori. a ddigwyddodd rhwng 13 Tachwedd 2023 a 12 Chwefror 2024. Darparwyd adborth gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) a chan berson dienw a gwblhaodd ffurflen ddychwelyd sy'n Gyfeillgar i Ieuenctid. Ymgysylltwyd hefyd ag aelodau cymorth plant o wahanol fforymau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Nododd adborth gan Gomisiynydd Plant Cymru y byddai Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2 "yn annog y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar lefel fwy manwl ac ystyrlon a thrwy ddull ystyriol a rhagweithiol ar draws y Llywodraeth". Nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar Hawliau'r Plentyn wedi'u nodi.

Bwriad y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol fel fframwaith hefyd yw galluogi gwell cydweithredu a chyfranogiad wrth fwrw ymlaen â'r cynllun hwn. Mae hyn yn cynnwys ystyried ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a grwpiau rhanddeiliaid ynghylch lansio'r cynllun. Mae bwriad hefyd i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid ar ddiwygio ysgogiadau'r llywodraeth a fydd yn arwain at ddiwygiadau tymor hwy ystyrlon.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Wrth lywio datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, cynhaliwyd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd ymatebion yn ymwneud yn benodol â phlant a sefydliadau cefnogi plant, gan gynnwys gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn llywio datblygiad Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029. Bwriedir i ymgysylltu a thrafodaeth ddigwydd hefyd ar unrhyw Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol pellach neu weithredoedd gyda phlant a phobl ifanc a sefydliadau sy'n eu cynrychioli, i gasglu mwy o wybodaeth a chymryd eu barn i ystyriaeth, a thrwy hynny fodloni erthygl 12 CCUHP.

Disgwylir i'r fframwaith Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol gael effaith gadarnhaol ar Hawliau Plant yng Nghymru. Mae'r CCUHP yn cydnabod nid yn unig hawliau dynol plant ond yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w hamddiffyn rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Yn ogystal â bod yn fframwaith, bwriedir i'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol alluogi gwell cydweithredu a chyfranogiad, gan gynnwys ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a grwpiau rhanddeiliaid mewn cysylltiad â lansio'r cynllun. Bydd ymgysylltu hefyd â grwpiau rhanddeiliaid ar ddiwygio ysgogiadau'r llywodraeth a fydd yn arwain at ddiwygiadau tymor hwy ystyrlon.

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn Herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| ERTHYGL 2 (peidio â gwahaniaethu) Mae'r hawliau a nodir yn CCUHP yn berthnasol i bob plentyn ni waeth beth fo'u hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, ethnigrwydd, anabledd neu unrhyw statws arall.<br><br>ERTHYGL 3 Rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant.<br><br>ERTHYGL 6 Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd, i oroesi a datblygu.<br><br>ERTHYGL 8 (hunaniaeth) Mae gan bob plentyn yr hawl i'w hunaniaeth – gan gynnwys eu cenedligrwydd, eu henw a'u perthnasoedd teuluol.<br><br>ERTHYGL 12 (parch at farn plant) Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn ar faterion sy'n effeithio arnynt, ac i'r safbwyntiau hyn gael eu hystyried. | X<br><br>X<br><br>X<br><br>X<br><br>X | | Mae'r gwaith i adnewyddu'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, Nod Hirdymor Llywodraeth Cymru a chyflawni camau gweithredu i gefnogi Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 sydd wedi'u cynnwys ar draws holl gynlluniau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru yn anelu at effeithio'n gadarnhaol ar hawliau plant. Bydd hyd yn oed gweithredoedd nad ydynt yn targedu plant yn uniongyrchol o fudd iddynt yn anuniongyrchol trwy eu rhieni a'u gofalwyr. Mae anghydraddoldeb yn ymddangos mewn gwahanol ffurfiau, megis gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd, lefelau tlodi, a safonau byw, pob un ohonynt wedi'u gwreiddio mewn anghydraddoldeb strwythurol a systemig. Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 - 2028 sydd wedi'u hymgorffori yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn a hyrwyddo'r hawliau a amlinellir yn CCUHP, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar grwpiau a ymyleiddiwyd.<br><br>Oherwydd natur strategol gyffredinol y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, a'r ymrwymiad i ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhob maes polisi, bydd y fframwaith yn naturiol yn cefnogi llawer o'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ERTHYGL 13 (rhyddid mynegiant) Mae gan bob plentyn yr hawl i ddarganfod a dosbarthu gwybodaeth ac i fynegi eu syniadau – ar lafar, mewn ysgrifen, ar ffurf celfyddyd, neu drwy unrhyw gyfrwng arall.<br><br>ERTHYGL 22 (Ceiswyr Noddfa)<br><br>Dylai plant sy'n dod i mewn i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.<br><br>ERTHYGL 23 (plant anabl) Mae gan blant anabl yr hawl i fwynhau bywyd llawn, gydag urddas, ac i gyfranogi cyn belled â phosibl yn eu cymuned.<br><br>Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd) Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl ac i ofal iechyd.<br><br>ERTHYGL 27 (safon byw ddigonol) Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw gweddus i'w galluogi i dyfu a datblygu.<br><br>ERTHYGL 29 (addysg a datblygiad plant) Dylai | X<br><br>X<br><br>X<br><br>X<br><br>X | | erthyglau eraill. Er enghraifft, bydd yr erthyglau sy'n ymwneud ag addysg plant (Erthygl 28) yn cael eu cefnogi gan ein proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol ddiwygiedig, a fydd yn cryfhau'r ystyriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol mewn addysg fel y bydd ar draws holl bolisi Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn parhau i ddylanwadu ar strategaethau Llywodraeth Cymru, megis y Strategaeth Tlodi Plant a'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles, y Cynllun Cenedl Noddfa – ac holl gynlluniau nodweddion gwarchodedig penodol a chamau gweithredu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| addysg helpu i ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd meddyliol a chorfforol pob plentyn i'r eithaf. | X | | |
| ERTHYGL 30 (grwpiau lleiafrifol a brodorol) Mae gan blentyn o grwpiau lleiafrifol yr hawl i fwynhau eu diwylliant eu hunain, arfer eu crefydd eu hunain a defnyddio eu hiaith eu hunain. | X | | |
| ERTHYGL 31 (chwarae a gweithgareddau diwylliannol ac artistig) Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol ac artistig. | X | | |

## 4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogol

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei gyflwyno i hysbysu Gweinidogion Cymru i'w cynorthwyo i ystyried y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Bydd cyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig yn dilyn canllawiau rhagnodedig.

## 6. Cyfathrebu gyda Phlant a Phobl Ifanc

Fel yr amlinellwyd uchod, roedd proses ymgynghori yn llywio datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Roedd plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan

yn y broses ymgynghori, yn ogystal â sefydliadau cefnogi plant fel Comisiynydd Plant Cymru a'r elusen Plant yng Nghymru. Cyhoeddwyd fersiwn o’r ymgynghoriad llawn sy'n Gyfeillgar i Blant a Phobl Ifanc ar wefan Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd ymatebion gan Gomisiynydd Plant Cymru ac amrywiaeth o sefydliadau plant a phobl ifanc a oedd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r plant a'r bobl ifanc i roi eu hadborth ar yr ymgynghoriad. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, bydd ymgysylltu yn parhau yn ystod cylch bywyd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2024 – 2029 wrth fwrw ymlaen â'r cynllun hwn. Mae hyn yn cynnwys ystyried ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a grwpiau rhanddeiliaid ynghylch lansio'r cynllun. Bwriedir hefyd ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid ar y gwaith o ddiwygio ysgogiadau’r llywodraeth fel ysgogiad effeithiol y gallant ddylanwadu orau arno i arwain at ddiwygiadau tymor hwy ystyrlon. Mae Comisiynydd Plant Cymru a Phlant yng Nghymru yn aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol a byddant yn ymwneud â monitro cynnydd wrth gyflawni'r argymhellion o fewn adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru.

Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn rhan allweddol o'r consortiwm a gynhyrchodd adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Arweiniwyd y consortiwm gan Brifysgol Abertawe, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor, Diverse Cymru a Young Wales.

### 7. Monitro ac Adolygu

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn rhan o gyfres o Asesiadau Effaith Integredig a gynhaliwyd yn ystod y broses o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029. Bydd ymgysylltu yn parhau yn ystod cylch bywyd Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 a bydd yn adlewyrch perfformiad yn erbyn mesurau i wella hawliau plant yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb cysylltiedig. Fan bellaf, bydd yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu yn 2029 ar ddiwedd cylch bywyd cyfredol y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

## B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Gan adeiladu ar y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gosododd Rheoliadau penodol i Gymru sylfaen bellach ar gyfer symud cydraddoldeb ymlaen yng Nghymru. O dan y Rheoliadau hyn, rhaid i gyrff rhestredig baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd.

**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**
Ers cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024, cyhoeddwyd sawl cynllun cydraddoldeb gwahanol sy'n canolbwyntio ar nifer o Nodweddion Gwarchodedig unigol, pob un â'i set ddiffiniedig ei hun o Gamau Gweithredu.

- Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Tasglu Hawliau Pobl Anabl
- Gofal Mamolaeth yng Nghymru – Gweledigaeth pum mlynedd ar gyfer y dyfodol 2019-2024
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (Cenedl Noddfa)
- Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru 2020-2023
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Gan fod cynlluniau gwahanol yn bodoli ar gyfer nifer o'r Nodweddion Gwarchodedig, gyda pholisïau gwahanol sy'n cwmpasu'r holl Nodweddion Gwarchodedig, mae Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn mabwysiadu dull croestoriadol sy'n canolbwyntio ar: creu cysylltiadau ar draws y cynlluniau hynny a pholisïau cydraddoldeb; prif ffrydio cydraddoldeb; a gweithredu polisi i fynd i'r afael â bylchau gweithredu systemig canfyddedig rhwng dylunio a chyflawni Camau Gweithredu (a dangos sut mae'r Camau Gweithredu hyn yn effeithio ar unigolion).

Mae'r ymgynghoriad cysylltiedig Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig yn helpu i hoelio sylw ar yr holl faterion cydraddoldeb a hyrwyddo dealltwriaeth o sut mae pob un yn croestorri, gyda'r nod o ddarparu polisïau gwell a darparu gwasanaethau gwell, gan gynnwys dyrannu adnoddau.

Bydd Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 hefyd yn parhau i gyflawni canlyniadau gan sicrhau cydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu a chysylltiadau da rhwng pobl yng Nghymru.

Mae gan bob un o'r cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol (a restrir uchod) eu set eu hunain o Amcanion a Chamau Gweithredu lle mae'r dystiolaeth ddatblygiadol yn dweud wrthym fod gweithredu wedi'i dargedu wedi cael ei nodi. Mae ganddyn nhw Asesiadau Effaith Integredig ar wahân. Mae'r Camau Gweithredu hyn yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

Wrth ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol drafft, dadansoddwyd tystiolaeth gan arweinwyr polisi, gan gynnwys yr hyn a ddarparwyd gan adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach? (2018). Ar ôl agor yr ymgynghoriad ar 13 Tachwedd, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach? sydd wedi llywio

ymhellach ddatblygiad Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

**Ymgysylltu ac Ymgynghori**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a datblygiad Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

Mae adborth wedi'i gasglu gan y cyhoedd ar-lein a thrwy weithdai cyn ymgynghori a fynychwyd gan ystod eang o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Cynhaliwyd rownd o ymgynghori cychwynnol gyda rhanddeiliaid cydraddoldeb ym mis Gorffennaf 2023 ar y Ddogfen Drafod Gychwynnol trwy adborth electronig i gwestiynau a gweithdy ar-lein. Cyfrannodd y pwyntiau a godwyd yn yr ymgysylltiad hwn at lunio'r ymgynghoriad llawn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig a redodd rhwng 13 Tachwedd 2023 a 12 Chwefror 2024.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar-lein i'r cyhoedd gael ei hystyried, i gasglu sylwadau, safbwyntiau ac awgrymiadau, a chynhaliwyd digwyddiad ar-lein hefyd i gasglu adborth ychwanegol.

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion a gynhwysir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o bob oedran. Er enghraifft, sicrhau bod gwasanaethau iechyd a | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | chymdeithasol â'r cyfarpar i gefnogi unigolion o bob oed | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd a sut y gallai eich cynnig arwain at achosi'n anfwriadol, neu fynd ati'n rhagweithiol i waredu, y rhwystrau sy'n golygu nad yw pobl gyda gwahanol fathau o amhariad yn gallu defnyddio gwasanaethau) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion a gynhwysir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar Bobl Anabl. Bydd datblygiad hefyd yn cael ei lywio gan ganfyddiadau ac argymhellion y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, *Gweithredu ar anabledd: yr hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a'r cynllun gweithredu, a'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl sydd ar y gweill.* | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |
| Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar bersonau sy'n ymgymryd ag Ailbennu Rhywedd yng Nghymru, gan gynnwys, ond heb fod yn | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfyngedig i, mynediad haws at wybodaeth a chyngor.<br>*Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru*<br>*Cynllun Gweithredu LHDTC+* | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol | Bydd y cynigion a gynhwysir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar Feichiogrwydd a Mamolaeth. Rhagwelir y bydd y cynigion sy'n hwyluso mynediad at ofal iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl feichiog.<br>*Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru*<br>*Strategaeth gofal mamolaeth (2019 i 2024)* | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr ac Ymfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion a gynhwysir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar bobl waeth beth fo'u hil, eu | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hunaniaeth ddiwylliannol, neu eu statws ymfudwr.<br>*Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Cadarnhaol | Bydd y buddion disgwyliedig ar gael i bawb yng Nghymru waeth beth fo'u crefydd, eu cred neu eu statws diffyg cred. | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |
| Rhyw / Rhywedd | Cadarnhaol | Bydd y cynigion a gynhwysir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol ac Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o bob Rhywedd.<br>*Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru* | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar bersonau o bob cyfeiriadedd rhywiol gan | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, mynediad haws at wybodaeth a chyngor.<br><br>*Cynllun Gweithredu LHDTC+* | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Cadarnhaol | Mae polisïau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cynnwys Camau Gweithredu a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion personau sy'n cymryd rhan neu'n ymgymryd â phriodas neu bartneriaeth sifil yng Nghymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, mynediad haws at wybodaeth a chyngor. | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol | Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Bydd y cynigion a gynhwysir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar Blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |
| Aelwydydd incwm isel | Cadarnhaol | Gweler yr Asesiad Economaidd yn Adran 4 a manylion Economaidd-gymdeithasol yn Adran 6 ac yn yr Asesiad Effaith | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Economaidd-Gymdeithasol yn Adran G o'r Asesiad Effaith Integredig hwn. Bydd y cynigion a gynhwysir yn y Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol, polisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cael effaith gadarnhaol ar bobl mewn aelwydydd incwm isel. | meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru a chyflawni lle bo angen. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

Ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *(Cyfeiriwch at bwynt 1.4 o'r Canllawiau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lliniaru effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Mae codi ymwybyddiaeth o dirwedd gyfreithiol Hawliau Dynol (deddfwriaeth y DU, Deddf Hawliau Dynol a rhwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru gan fod Llywodraeth y DU wedi llofnodi Cytundebau a Chonfensiynau Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig) yn rhan allweddol o’r | Ymgysylltu ag arweinwyr polisi lle mae unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi mewn meysydd polisi unigol i asesu mesurau lliniaru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, gan fwrw ymlaen ag argymhellion yn adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, Amcan Cenedlaethol (Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2) ac ymgorffori hawliau o dan ddau Gonfensiwn, Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) a'r CCUHPA sy'n ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.<br><br>Mae Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 yn cynnwys cyfeiriadau at Gamau Gweithredu i'w cymryd i gryfhau a gwella Hawliau Dynol yn Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2, gan gynnwys y rhai a gynhwysir mewn cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol sy'n cael eu datblygu. Er enghraifft, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau CCUHPA – a gwaith Tasglu Hawliau Pobl Anabl | a chyflawni lle bo angen. |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU, ynghyd â Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir (“Cytundebau Hawliau Dinasyddion”) yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a'r Cytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir. Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig, roedd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylydd newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE erbyn 30 Mehefin 2021.

Ystyriwch effaith eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn un gadarnhaol neu negyddol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i ddileu effeithiau negyddol posibl.  Nodwch y rheswm dros eich ateb, gan gynnwys ble y ceisiwyd cyngor cyfreithiol a nodwch hefyd ble nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig o ganlyniad i gymeradwyaeth y Cabinet o'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth yn yr ymgynghoriad a fyddai'n dangos hyn. Yn fwy eang, mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol yn gadarnhaol.

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig o ganlyniad i gymeradwyaeth y Cabinet o'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth yn yr ymgynghoriad a fyddai'n dangos hyn. Yn fwy eang, mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol yn gadarnhaol.

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd

Roedd archwiliad diweddar (Chwefror 2025) y Cenhedloedd Unedig o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) yn cydnabod nad oedd y mater hwn wedi'i ddatganoli. Mae gan Lywodraeth Cymru rywfaint o gyfrifoldeb o dan Erthygl 10 ond dim ond mewn perthynas â diogelu'r teulu a'r plant a chyfrifoldeb rhannol o dan dlodi, bwyd a thai.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig o ganlyniad i gymeradwyaeth y Cabinet o'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth yn yr ymgynghoriad a fyddai'n dangos hyn.  Yn fwy eang, mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol yn gadarnhaol.

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

O dan ICESCR ymdrinnir â hawliau cyfartal dynion a menywod yn Erthygl 3. Mae ICESCR yn bennaf heb ei ddatganoli ac nid yw wedi'i ymgorffori. Nid yw rhaglen Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal yn cael ei heffeithio gan yr Asesiad Effaith integredig hwn.

Mae gwaith Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ar ymgorffori'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod a'r CCUHPA.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig o ganlyniad i gymeradwyaeth y Cabinet o'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth yn yr ymgynghoriad a fyddai'n dangos hyn. Yn fwy eang, mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol yn gadarnhaol.

**Hawliau gweithwyr** – Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig o ganlyniad i gymeradwyaeth y Cabinet o'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth yn yr ymgynghoriad a fyddai'n dangos hyn. Yn fwy eang, mae'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol yn gadarnhaol.

## C. Asesiad Effaith y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

### Cynnal yr asesiad effaith

### Pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiadau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Disgrifir enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniadau yn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol fel Iechyd ac iechyd meddwl gwaeth, Disgwyliad oes iach is, Sgiliau a chyrhaeddiad addysgol gwaeth, gwaith gyda chyflog is, mwy o siawns o ddioddef trosedd a pheidio â theimlo'n ddiogel, cyfranogiad gwaeth mewn bywyd cyhoeddus, mwy o siawns o fyw mewn tai llai na digonol a mynediad gwaeth at drafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r dystiolaeth ganlynol wedi'i hystyried er mwyn deall cyfleoedd i leihau anghydraddoldeb o'r fath trwy'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Cyflwynir pob un trwy

gamau gweithredu sy'n cael eu symud ymlaen trwy'r Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol

Adolygu'r dystiolaeth: anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal | LLYW.CYMRU

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol: enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad | LLYW.CYMRU

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1:** Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi. Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol anfanteisiol yn cael effaith hirdymor ar bob agwedd ar fywyd unigolyn, o'i eni hyd at fod yn oedolyn. Mae hyn oherwydd bod gwahaniaethau mewn cyfoeth neu gyfle, h.y. amddifadedd economaidd-gymdeithasol, yn cyfyngu ar gyfleoedd ac opsiynau pobl mewn bywyd. Felly, mae tlodi yn gysylltiedig â chanlyniadau addysgol a chanlyniadau cysylltiedig â gwaith neu iechyd gwaeth.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus. Mae sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau dynol â'r potensial i rymuso pobl i herio dros eu hawliau, gallai hyn effeithio ar leihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt. Gall nifer o ffactorau gyfyngu ar fynediad at wasanaethau, o ddarparu gwasanaethau digonol i anhawster cymryd rhan lawn mewn bywyd diwylliannol oherwydd gwahaniaethu, gyda chyfranogiad llawn mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru yn gysylltiedig â hil, hunaniaeth rhywedd ac anabledd. Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod sawl maes y gellid mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau i ymgorffori gwerthoedd gwlad agored a theg lle mae pawb yn gallu cymryd rhan mewn agweddau ar fywyd cymunedol yn unol â'u dymuniad (FGC, 2020)

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4:** Byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau, gan gynnwys menywod, unig rieni, lleiafrifoedd hiliol ac ethnig, plant, pobl anabl, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (Alston, 2018). Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 5:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb o'r amrywiaeth lawn o gefndiroedd gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, cael eu lleisiau wedi'u clywed, a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain. Mae nodweddion croestoriadedd yn effeithio ar gyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus a'r gallu i gael mynediad at wasanaethau penodol. Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn

yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 6:** Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg. Mae bylchau cyflog a thlodi mewn gwaith yn effeithio ar rai grwpiau yn llawer mwy nag eraill. Mae gweithwyr anabl a gweithwyr o Leiafrifoedd Ethnig mewn mwy o berygl o wynebu tlodi mewn gwaith. Mae gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, ac mae aelwydydd sy'n cynnwys unigolyn anabl yn fwy tebygol o wynebu problemau ariannol (EHRC, 2018).

Mae pobl anabl yn llai tebygol o weithio mewn galwedigaethau cyflog uchel, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl, ac mae pobl anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phobl nad oes ganddynt amhariad (EHRC, 2018). Mae adroddiad Llesiant Cymru 2020 yn dangos bod bylchau cyflog yn bodoli ar gyfer menywod, pobl anabl a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

**Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7:** Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar y gallu i gael mynediad at ddarpariaethau sero net, fel trafnidiaeth a gwelliannau i gartrefi. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel llifogydd yng Nghymru, yn debygol o effeithio ar draws y grwpiau hynny sy'n dioddef o SED. Cymunedau tlawd a chymunedau a ymyleiddiwyd yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o gael eu taro gan drychinebau hinsawdd fel llifogydd, yn ôl adroddiad newydd. Bydd yr Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau Cydraddoldeb i ganolbwyntio sylw lle mae ei angen fwyaf.

Gofynnwyd y cwestiwn isod a derbyniwyd nifer o ymatebion. Roedd rhai yn canolbwyntio ar yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a mynd i'r afael â'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd ynddynt gydag eraill yn canolbwyntio mwy ar fecanwaith datblygu Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029.

**Cwestiwn 6: A ydych yn credu y bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn ein helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol?**

Derbyniwyd nifer o ymatebion manwl i'r cwestiwn hwn, sydd wedi llywio'r gwaith o ail-ddrafftio Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028 a datblygiad Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 – 2029 fel y maent yn ymwneud â gweithredu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

Fel enghraifft o'r ymatebion a dderbyniwyd:

"Mae'n bwysig nodi bod y diffiniadau o grwpiau yn mynd y tu hwnt i nodweddion gwarchodedig, sy'n cael ei gydnabod gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol."

"Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth cyrff sector cyhoeddus fel cyflogwyr a'u gallu i leihau anghydraddoldebau trwy'r rôl hon. Rydym hefyd yn cefnogi'r pwyslais a roddir ar brofiad bywyd o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gall y rhai sydd â phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol (neu fathau eraill o anfantais) gael eu hystyried yn arbenigwyr trwy brofiad. Mae ymgysylltu ag arbenigwyr trwy brofiad yn rhoi cyfle i ddangos ymrwymiad i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol trwy eu trin â'r un parch ag unrhyw arbenigwyr eraill y gellid ymgynghori â hwy."

"Gan mai hwn yw iteriad cyntaf Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ers i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ddod i rym, mae cynnwys amcan pwrpasol sy'n cefnogi mynd i'r afael ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn ddatblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd [mewn cwestiwn arall], efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ad-drefnu ei hamcanion i sicrhau nad yw'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn cysgodi egwyddorion allweddol y fframwaith cydraddoldeb sy'n bodoli eisoes, h.y. nodweddion gwarchodedig."

"Mae gan rai o'r nodau gysylltiadau cryfach â chyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ond mae pob un o'r 7 yn cyfrannu mewn ffordd. Mae yna lawer o faterion systemig sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yng Nghymru a'r DU, sy'n cael effaith andwyol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol a bydd yn cymryd amser hir i'w gwella. Ac fel y dywedwch 'gall y maes cydraddoldeb a hawliau dynol esblygu'n gyflym.' felly bydd angen adolygu'r gwaith yn gyson, gan integreiddio ymgysylltiad."

Gofynnir i Weinidogion Cymru ddangos sut maent wedi ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau yn unol ag Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024 – 2028, Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 - 2029, Cynlluniau Nodweddion Gwarchodedig gwahanol a pholisïau cydraddoldeb a hawliau dynol, wrth iddynt ddatblygu polisïau, ymyriadau a chyflawni, gydag Asesiadau Effaith Integredig perthnasol (a fydd yn cynnwys Asesiad o Effeithiau Economaidd ac Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol fel elfennau cydrannol) yn ofynnol i lywio pob penderfyniad.